

Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2018

Cyflwr dysgu ieithoedd
mewn ysgolion
uwchradd yng Nghymru



Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2018

Cyflwr dysgu ieithoedd
mewn ysgolion
uwchradd yng Nghymru

Cynnwys

Ynglŷn â'r British Council	3	2. Cynllunio'r ymchwil a chasglu data	18
Am yr awduron	4	Dadansoddi data arholiadau	19
Diolchiadau	4	Datblygu'r holiaduron	19
		Casglu data	20
Crynodeb gweithredol	5	Dadansoddiad o'r data	20
Niferoedd sy'n sefyll arholiadau	6		
Canfyddiadau Allweddol	7	3. Data arholiadau ysgolion yng Nghymru	21
Nifer sy'n astudio	7	TGAU	22
Ieithoedd tramor modern ôl-16	7	Safon Uwch	24
Cyswilt ag Ysgolion Cynradd	9	Niferoedd Uwch-gyfrannol	25
Ieithoedd tramor modern ac Addysgu Cymraeg	9		
Ymgysylltiad Rhyngwladol	9	4. Canfyddiadau'r arolwg	28
Materion sy'n peri pryder	9	Y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern	
Casgliadau	10	yng Nghyfnod Allweddol 4	29
		Ieithoedd tramor modern ôl-16	37
1. Cyflwyniad	11	Staff addysgu	41
Y cyd-destun polisi	12	Cysylltiadau ag ysgolion cynradd	43
Tueddiadau Ieithoedd Cymru	13	Ieithoedd tramor modern ac addysgu Cymraeg	46
Nifer sy'n astudio	13	Ymgysylltiad rhyngwladol	49
Dyfodol Byd-eang	14	Effaith Brexit	50
Nifer sy'n astudio ITM ôl-16	14	Materion sy'n peri pryder	52
Staff Addysgu	14		
ITM mewn ysgolion cynradd	14	5. Casgliadau	55
ITM a'r Gymraeg	16	Atodiad - Proffil ymatebion	58
Ymgysylltiadau rhyngwladol a Brexit	16		
Materion eraill sy'n peri pryder	17		

Ynglŷn â'r British Council

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu dealltwriaeth gyfeillgar rhwng pobl y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Rydym yn gwneud hyn drwy wneud cyfraniad cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig a'r gwledydd rydym yn gweithio â nhw – rydym yn newid bywydau drwy greu cyfleoedd, adeiladu cysylltiadau a meithrin hyder.

Rydym yn gweithio a thros 100 o wledydd ar draws y byd ym meysydd celf a diwylliant, Saesneg, addysg a chymdeithas sifil. Y llynedd, cyrhaeddodd dros 75 miliwn o bobl yn uniongyrchol, a 758 miliwn o bobl i gyd, yn cynnwys drwy ddarllediadau, cyhoeddiadau ac ar-lein. Cawsom ein sefydlu ym 1934, ac rydym yn elusen yn y Deyrnas Unedig a lywodraethir gan Siarter Frenhinol ac rydym yn gorff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.britishcouncil.org

Am yr awdur

Teresa Tinsley wedi sefydlu a datblygu'r gyfres Tueddiadau Ieithoedd o arolygon sydd wedi olrhain cyflwr ieithoedd mewn gwahanol sectorau addysg er 2002. Yn ogystal â chynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am sefyllfa ieithoedd mewn ysgolion uwchradd Cymru a Lloegr, mae'r arolygon hefyd wedi rhoi sylw i'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd cymunedol ar draws y DU, a dysgu iaith ym maes Addysg Bellach ac Addysg i Oedolion. Arferai Teresa fod yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu yn CILT, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol, a sefydlodd Alcantara Communications yn 2011 ac ers hynny mae wedi gwneud gwaith ymchwil i ieithoedd gan ganolbwyntio ar bolisi ar gyfer yr Academi Brydeinig a'r Cyngor Prydeinig, yn ogystal ag i Ymddiriedolaeth Addysg CfBT. Mae ei gwaith ar gyfer CfBT yn cynnwys adolygiad rhyngwladol o ieithoedd cynradd, Gwersi o dramor, yn ogystal â'r adroddiadau Tueddiadau Ieithoedd o 2011 i 2017, gan gynnwys arolwg Tueddiadau Ieithoedd y llynedd yng Nghymru.



Teresa Tinsley

Diolchiadau

Hoffem yn arbennig gydnabod amser ac ymdrech yr holl athrawon a gwblhaodd arolwg eleni a darparu cymaint o dystiolaeth a sylwadau cyfoethog i'r ymchwilwyr. Mae'r wybodaeth y mae'r ymatebwyr wedi'i rhoi yn hanfodol wrth ddeall y darlun cenedlaethol ac wrth ddatblygu ein gallu ni i gyd i wella'r ddarpariaeth.

Crynodeb gweithredol



Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r pedwerydd arolwg blynyddol o ieithoedd tramor modern (ITM) mewn ysgolion yng Nghymru, a gynlluniwyd i gasglu gwybodaeth gan ysgolion am y sefyllfa bresennol o ran addysgu ITM a safbwyntiau o ran datblygu'r broses yn y dyfodol. Mae'r gwaith ymchwil yn nodi effaith polisiau'r llywodraeth mewn ysgolion ac, ar yr un pryd, yn adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau athrawon ITM mewn perthynas â thri maes allweddol:

- Y gostyngiad hirsefydledig yn yr ieithoedd tramor modern (ITM) a gaiff eu haddysgu a'u dysgu mewn ysgolion yng Nghymru, y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ymdrin ag ef drwy ei gynllun *Dyfodol Byd-eang*.
- Datblygiad Cwricwlwm Newydd i Gymru a gynlluniwyd i atgyfnerthu ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o fewn Maes Dysgu a Phrofiad unigol ac sy'n anelu at gyflwyno trefniadau ar gyfer addysgu 'ieithoedd rhyngwladol' i gwricwlwm ysgolion cynradd.
- Yn gysylltiedig â hyn, y potensial am synergedd rhwng y trefniadau ar gyfer addysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol a gynigir gan y cwricwlwm newydd sy'n cysyniadoli pob pwnc iaith fel pwnc integredig.

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried y newidiadau sy'n mynd rhagddynt o ganlyniad i broses Brexit ac adroddiad diweddar ar anghenion busnes a masnach yng Nghymru yn y cyd-destun hwn, a ddaeth i'r casgliad bod angen annog llawer mwy o unigolion i astudio ITM er mwyn i Gymru ffynnu fel gwlad sy'n masnachu ar sail ryngwladol.¹

Mae angen annog llawer mwy o unigolion i astudio ITM er mwyn i Gymru ffynnu fel gwlad sy'n masnachu ar sail ryngwladol.

Y data diweddaraf ar arholiadau mewn ysgolion

Ers 2002, mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU mewn ieithoedd tramor modern yng Nghymru wedi gostwng 57%: mae'r nifer ar gyfer Ffrangeg wedi gostwng o ddwy ran o dair a'r nifer ar gyfer Almaeneg wedi gostwng 71%. Dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer 2018 fod y gostyngiad ar gyfer Almaeneg wedi'i atal, a bod y gostyngiad ar gyfer Ffrangeg yn llai serth nag a fu yn ystod blynyddoedd blaenorol; fodd bynnag, gostyngodd nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Sbaeneg yn sylweddol iawn, gyda gostyngiad o 23% rhwng 2017 a 2018.

O ran Safon Uwch, mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau mewn ieithoedd tramor modern wedi haneru ers 2001, a chafwyd effaith ddifrifol iawn ar Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Mae dros draean o'r disgyblion sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch mewn ieithoedd modern bellach yn gwneud hynny mewn 'ieithoedd eraill', na chaiff eu haddysgu'n gyffredinol

¹Daniel Roberts, *Mind Your Language. A short report by Gorwel into Wales, Brexit and the study of Modern Foreign Languages, 2018.*

mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r tuddiadau hyn i'w gweld o hyd yn ffigurau 2018, gyda gostyngiadau sylweddol iawn mewn Almaeneg (-33% rhwng 2017 a 2018) a Sbaeneg (-12%).

Nid yw'r ffigurau ar gyfer nifer y disgyblion a safodd arholiadau UG yn argoeli'n dda o ran gwella'r sefyllfa yn 2019.

Ar lefel TGAU a Safon Uwch, mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion a safodd arholiadau mewn ITM yn gysylltiedig â thuedd gynyddol tuag at ymgeiswyr benywaidd: Ar lefel TGAU, merched yw 63% o'r disgyblion sy'n sefyll arholiadau, ac mae'r ganran hon yn cynyddu i 67% ar gyfer arholiadau Safon Uwch.

Canfyddiadau allweddol

Cwblhawyd yr arolwg y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno ar-lein yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2018, ac anfonwyd gwahoddiadau e-bost i bob ysgol uwchradd yng Nghymru, wedi'u cyfeirio at y Pennaeth Ieithoedd Modern. Cafwyd ymatebion gan 135 o'r 208 o ysgolion, sef cyfradd ymateb o 65%.

Roedd y canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

Y nifer sy'n astudio ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4

- Mae lefelau cyfranogiad mewn ITM ar lefel TGAU yn parhau i ostwng ledled Cymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r niferoedd wedi cynyddu mewn rhai ysgolion.
- Mae cyfran yr ysgolion lle mai dim ond un o bob deg disgybl neu lai sy'n astudio iaith y tu hwnt i 14 oed wedi cynyddu o 24% i 43% mewn dwy flynedd.
- Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac ysgolion lle mae cyfran uwch o ddisgyblion yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, yn fwy tebygol o fod â lefelau isel o ddisgyblion yn astudio'r pwnc.
- Mewn 50% o ysgolion, mae blociau opsiynau yn atal disgyblion rhag astudio ITM os byddant yn dewis pynciau eraill penodol.
- Dim ond nifer fach o uwch reolwyr ysgolion a staff gyrfaedd sy'n lledaenu negeseuon cadarnhaol am astudio ITM.

Effaith Dyfodol Byd-eang

- Mae *Dyfodol Byd-eang* wedi cynyddu ei gyrhaeddiad ers arolwg y llynedd, ac ystyrir ei weithgareddau mewn modd cadarnhaol. Cafwyd gwerthfawrogiad arbennig i gamau gweithredu er mwyn helpu i gynyddu nifer y disgyblion.
- Mae'r Consortia Rhanbarthol yn cyrraedd cyfran uchel o ysgolion â'u darpariaeth DPP - mae 44% o ysgolion yn cymryd rhan 'yn rheolaidd', ac mae 51% yn gwneud hynny'n 'achlysurol'.
- Nifer gymharol fach o ysgolion uwchradd sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo ITM mewn ysgolion cynradd ac nid ydynt o'r farn bod y gweithgaredd hwn mor ddefnyddiol â gweithgareddau eraill a drefnir drwy *Dyfodol Byd-eang*.
- Nododd ymatebwyr fod angen gwneud newidiadau y tu hwnt i gwmpas *Dyfodol Byd-eang* er mwyn atal y gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio ITM.

Mae *Dyfodol Byd-eang* wedi cynyddu ei gyrhaeddiad ers arolwg y llynedd, ac ystyrir ei weithgareddau mewn modd cadarnhaol. Cafwyd gwerthfawrogiad arbennig i gamau gweithredu er mwyn helpu i gynyddu nifer y disgyblion.



ITM ôl-16

- Bu gostyngiad amlwg, mewn cyfnod o ddim ond blwyddyn, yn nifer y disgyblion sy'n dysgu ieithoedd tramor modern ôl-16. Bellach, nid oes gan dros draean yr ysgolion â darpariaeth ôl-16 unrhyw ddisgyblion ar gyfer ITM. Mae cyfran yr ysgolion heb unrhyw grwpiau ITM yn y chweched dosbarth wedi cynyddu i 29% ac mae nifer yr ysgolion lle mae llai na 6 disgybl yn astudio ITM ôl-16 wedi gostwng.
- Mae niferoedd isel ar gyfer ITM ar lefel TGAU yn golygu bod y gronfa o ddisgyblion ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn rhy fach i sicrhau bod digon o ddisgyblion yn awyddus i barhau i astudio'r pwnc.
- Mae'r canfyddiad bod ITM yn anos na phynciau eraill, y gwerth isel a roddir i ITM o gymharu â phynciau STEM, a'r gostyngiad mewn dewisiadau pwnc er mwyn galluogi disgyblion i astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru oll yn ffactorau sy'n cyfrannu at y gostyngiad.

Mae gan tua hanner (48%) yr ysgolion uwchradd ryw fath o gyswllt â'u prif ysgol fwydo gynradd mewn perthynas ag ITM, er mai cyfyngedig yw natur y cyswllt hwn fel arfer.

Cysylltiadau ag ysgolion cynradd

- Mae gan tua hanner (48%) yr ysgolion uwchradd ryw fath o gyswllt â'u prif ysgol fwydo gynradd mewn perthynas ag ITM, er mai cyfyngedig yw natur y cyswllt hwn fel arfer.
- Mae tua thraean o'r farn nad yw eu prif ysgol fwydo gynradd yn darparu unrhyw baratoad o gwbl ar gyfer dysgu ITM ar hyn o bryd.
- Mae ymatebwyr o blaid datblygu dulliau gweithredu yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n canolbwyntio'n benodol ar ITM yn hytrach nag ar sgiliau dysgu iaith cyffredinol drwy Gymraeg a/neu Saesneg.

Ieithoedd tramor modern ac Addysgu Cymraeg

- Mae amrywiaeth fawr o ran arfer mewn perthynas â'r graddau o gydweithredu a'r mathau o gydweithredu ymhlith cydweithwyr sy'n gyfrifol am y maes cwricwlwm newydd ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, gyda rhai enghreifftiau da o gydweithio agos.
- Mae rhai ysgolion yn dechrau cydweithredu mwy, er mwyn paratoi ar gyfer Cwricwlwm Newydd i Gymru.
- Pwysau amser yw'r rhwystr mwyaf sy'n atal mwy o gydweithredu.

Ymgysylltiad rhyngwladol ac effaith Brexit

- Mae disgyblion sy'n mynd i'r ysgol mewn ardaloedd lle ceir lefelau uwch o anfantais economaidd yn llai tebygol o gael cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn teithiau ysgol dramor.
- Prin yw'r ysgolion sy'n trefnu teithiau cyfnewid i ddisgyblion dramor a phrin iawn sy'n cynnig profiad gwaith mewn gwlad dramor.
- Noda mwy na thraean o ysgolion (37%) fod proses Brexit yn cael effaith negyddol ar agweddau tuag at astudio ITM.
- Mae'r effaith hon yn fwyaf sylweddol ymhlith ysgolion yn Ne-ddwyrain Cymru.

Materion sy'n peri pryder a godwyd gan yr ymatebwyr

- Mae cyflwyno'r cyrsiau TGAU a Safon uwch newydd wedi atgyfnerthu'r canfyddiad bod ITM yn bwnc anodd sydd ond yn addas ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog.

- Mae llawer o athrawon ITM o'r farn eu bod yn gweithio ar gyrion y cwricwlwm ac nad yw uwch rheolwyr yn cefnogi ymdrechion i hyrwyddo'r pwnc.
- Mae rhai o'r farn bod *Dyfodol Byd-eang* yn cael ei danseilio gan newidiadau polisi mwy sylfaenol ym myd addysg.

Casgliadau

Bu'r consortia rhanbarthol yn llwyddiannus wrth gyrraedd y mwyafrif helaeth o'r ysgolion a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn. Mae llawer o ysgolion bellach yn cymryd rhan mewn gweithgareddau niferus i godi proffil a statws ITM ac yn ddiau, mae rhai wedi llwyddo i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio ar gyfer cymwysterau TGAU. Fodd bynnag, mae'r darlun cenedlaethol ar gyfer ITM yng Nghymru gyfan dal i waethygu. Mae cyflwyno Bagloriaeth Cymru, sydd wedi lleihau'r slotiau sydd ar gael ar gyfer dewisiadau opsiynau rhydd, a manylebau arholiad newydd sydd, yn ôl athrawon, yn anos i ddisgyblion, wedi gorbwysu'r ymdrechion niferus i annog disgyblion i astudio iaith fodern. Mae effaith llymder ariannol, yn enwedig ym maes addysg ôl-16 ac, mewn rhai ysgolion, cynnydd o ran agweddau negyddol tuag at ddysgu iaith yn dilyn pleidlais Brexit, yn ffactorau ychwanegol sy'n dylanwadu ar y gostyngiad parhaus.

Mewn cyd-destun lle y caiff ysgolion eu trin mewn ffordd gynyddol annibynnol, mae gan uwch arweinwyr ysgolion y pŵer i oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn, drwy amserlennu, neilltuo amser, dylunio colofnau opsiynau - hyd yn oed, o bosibl, gwneud y pwnc yn orfodol i rai disgyblion - a thrwy sefydlu ethos rhyngwladol sy'n ystyriol i ieithoedd yn yr ysgol. Fodd bynnag, dim ond 17% o'r ymatebwyr i'r arolwg hwn a ddywedodd fod tîm rheoli eu hysgol yn cyfleu negeseuon cadarnhaol am ITM ar hyn o bryd.

Ceir arwyddion bod rhai ysgolion eisoes yn dechrau creu strwythurau a fydd yn helpu i integreiddio Cymraeg, Saesneg ac 'ieithoedd rhyngwladol' mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymdeimlad o fyrder na symudiad tuag at weledigaeth gadarnhaol o'r hyn y gallai'r cwricwlwm newydd ei gynnig, ond yn hytrach, ceir ymdeimlad y caiff athrawon ITM eu hystyried fel y 'perthnasau tlawd' o hyd. Er yr ystyrir mai amser yw'r rhwystr allweddol sy'n atal rhagor o gydweithredu, bydd angen arweinyddiaeth effeithiol hefyd.


Mae'r ymatebion i'r cwestiynau sy'n ymwneud ag ysgolion cynradd yn nodi y bydd angen cryn dipyn o waith datblygu – ac y bydd goblygiadau anochel o ran amser ac adnoddau yn gysylltiedig â hynny – er mwyn gallu cyflwyno 'ieithoedd rhyngwladol' yn y cyfnod cynradd mewn unrhyw ffordd ystyrion. Os caiff ei weithredu'n effeithiol, yn sicr gallai'r cwricwlwm newydd a threfniadau cynharach ar gyfer dysgu iaith newydd wella'r sefyllfa ar gyfer ITM mewn ysgolion uwchradd, ond bydd hyn yn cymryd degawd neu fwy i ddwyn ffrwyth.

Casgliad cyffredinol y gwaith ymchwil hwn yw bod angen gweithredu ar fyrder mewn ymateb i ddirywiad parhaus ITM ar lefel TGAU ac ôl-16 a hynny y tu hwnt i gwmpas *Dyfodol Byd-eang*. Er gwaethaf yr amrywiaeth o fentrau a anogwyd gan y cynllun, mae canlyniadau anfwriadol diwygiadau addysgol eraill, a chyfuniad o ffactorau yn y cyd-destun allanol, wedi creu argyfwng sy'n bygwth dileu rhai ieithoedd, neu ieithoedd mewn rhai cyfnodau, o fewn cyfnod byr iawn o amser.

Ceir arwyddion bod rhai ysgolion eisoes yn dechrau creu strwythurau a fydd yn helpu i integreiddio Cymraeg, Saesneg ac 'ieithoedd rhyngwladol' mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd.

Pennod 1

Cyflwyniad



Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r pedwerydd arolwg blynyddol o ieithoedd tramor modern (ITM) mewn ysgolion yng Nghymru, a gynhaliwyd mewn cyd-destun lle mae newidiadau sylweddol yn mynd rhagddynt; i'r wlad gyfan o ganlyniad i broses Brexit, ac i ysgolion yng Nghymru yn arbennig o ganlyniad i'r broses o ddatblygu cwricwlwm newydd sydd wedi'i gynllunio i atgyfnerthu ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o fewn un Maes Dysgu a Phrofiad unigol.²

Y cyd-destun polisi

Mae'r ddau ddatblygiad hyn, ynghyd ag uchelgais Cymru i greu 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050,³ wedi'u cysylltu'n agos â chwestiynau'n ymwneud ag amlieithrwydd, hunaniaeth Gymreig a'r canfyddiad o Gymru yn y byd ehangach.⁴ Daeth adroddiad diweddar gan y felin drafod Gorwel, a ystyriodd anghenion busnes a masnach yng Nghymru yng nghyd-destun Brexit, i'r casgliad bod annog mwy o unigolion i astudio ITM yn greiddiol er mwyn sicrhau y gall Cymru ffynnu fel gwlad sy'n masnachu'n rhyngwladol.⁵

Mae tri mater allweddol yn amlwg yn y cyd-destun polisi y lluniwyd adroddiad eleni o'i fewn:

- Yn gyntaf, y gostyngiad hirsefydledig yn yr ieithoedd tramor modern (ITM) a gaiff eu haddysgu a'u dysgu mewn ysgolion yng Nghymru, y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ymdrin ag ef drwy ei gynllun *Dyfodol Byd-eang*. Mae'r flwyddyn 2018 yng nghanol y cynllun pum mlynedd sy'n rhedeg o 2015 i 2020. Mae'n anelu at gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio pynciau ITM ar lefel TGAU, Safon Uwch (neu gymwysterau cyfatebol) ac mewn addysg uwch; gwella addysg a phrofiad dysgu ITM i ddysgwyr 7-19 oed, gan adeiladu at system 'dwyieithog a mwy' lle bydd iaith dramor fodern yn dechrau cael ei haddysgu'n ffurfiol ym Mlwyddyn 5; a chynnal y lefelau cyrhaeddiad presennol mewn ITM a'u gwella.
- Yn ail, dyhead a fynegwyd yn y cwricwlwm newydd, yn ogystal ag yn *Dyfodol Byd-eang*, i gyflwyno trefniadau i addysgu 'ieithoedd rhyngwladol' (gan ddefnyddio terminoleg y cwricwlwm newydd) fel rhan o'r cwricwlwm i ysgolion cynradd.
- Yn drydydd, y potensial sylweddol am synergedd rhwng y trefniadau ar gyfer addysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol a gynigir gan y cwricwlwm newydd sy'n cysyniadoli pob pwnc iaith fel pwnc integredig.

Daeth adroddiad diweddar gan y felin drafod Gorwel, a ystyriodd anghenion busnes a masnach yng Nghymru yng nghyd-destun Brexit, i'r casgliad bod annog mwy o unigolion i astudio ITM yn greiddiol er mwyn sicrhau y gall Cymru ffynnu fel gwlad sy'n masnachu'n rhyngwladol

²Llywodraeth Cymru, *Dyfodol llwyddiannus*, Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, Yr Athro Graham Newydd i Gymru, 2015.

³Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, 2017.

⁴British Council, *Baromedr Cymell Tawel Cymru*, 2018: <https://wales.britishcouncil.org/cy/wales-soft-power-barometer-2018>.

⁵Daniel Roberts, *Mind Your Language. A short report by Gorwel into Wales, Brexit and the study of Modern Foreign Languages*, 2018.

Y tri mater hyn yw prif themâu'r adroddiad eleni. Mae'r arolwg hefyd yn ystyried effaith meysydd llafur TGAU, UG a Safon Uwch newydd 'a wnaed yng Nghymru' ar gyfer leithoedd Tramor Modern a gyflwynwyd ym mis Medi 2016. Mae'r rhain yn nodweddiadol Gymreig o ran eu cynnwys ac maent wedi'u cynllunio i fodloni gofynion Bagloriaeth Cymru, sydd bellach yn orfodol ar gyfer pob disgybl ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 ac yn y Chweched Dosbarth.

Tueddiadau leithoedd yng Nghymru, 2014-2018

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r pedwerydd rhifyn o'r arolwg Tueddiadau leithoedd o ysgolion yng Nghymru, a gynlluniwyd i gasglu gwybodaeth gan ysgolion am y sefyllfa bresennol o ran addysgu ITM a safbwyntiau o ran datblygu'r broses yn y dyfodol. Mae'r adroddiadau ar yr arolwg blynyddol yn nodi effaith polisiau'r llywodraeth mewn ysgolion ac, ar yr un pryd, yn adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau athrawon ITM wrth iddynt addasu i gyd-destunau newidiol ar gyfer addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion. Roedd rhifyn 2015/16 o'r ymarfer ymchwil yn targedu ysgolion cynradd ac uwchradd; fodd bynnag, ni chaiff yr arolwg cynradd ei ailadrodd bob blwyddyn a ffocws arolwg 2018 oedd adrannau ITM mewn ysgolion uwchradd.

Fel arolygon Tueddiadau leithoedd blaenorol, mae'n canolbwyntio ar y themâu canlynol:

Y nifer sy'n astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4

Rhwng 2002 (y dyddiad cynharaf y mae ystadegau ar gael ar ei gyfer) a 2017, gostyngodd nifer yr ymgeiswyr a oedd yn astudio ITM ar lefel TGAU yng Nghymru fwy na 54%, a gostyngodd cyfran y cofrestriadau ITM allan o gyfanswm y cofrestriadau ar gyfer yr holl bynciau o 4.9% i 2.3%.⁶ Datblygwyd y cynllun *Dyfodol Byd-eang* fel ymateb uniongyrchol i'r sefyllfa hon. Nododd arolygon Tueddiadau leithoedd blaenorol nifer o ffactorau a gyfrannodd at y gostyngiad, gan gynnwys:

- nifer y pynciau gorfodol;
- y penderfyniad i ddileu iaith dramor fodern o gymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru i ddisgyblion 14-19 oed yn 2015, a chanlyniadau ei gyflwyno, a ostyngodd nifer y slotiau opsiwn rhydd a oedd ar gael i ddisgyblion;
- y ffaith na neilltuwyd digon o amser i ITM yng Nghyfnod Allweddol 3, gan olygu nad oedd llawer o ddisgyblion wedi'u paratoi'n ddigonol i ddechrau cwrs TGAU ac nad oeddent yn hyderus y byddent yn llwyddiannus;
- anhawster canfyddedig cynnwys ac arholiadau TGAU ITM o gymharu â phynciau eraill.

Canfu arolygon blaenorol fod llawer o ysgolion wedi bod yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo ITM ond er bod hyn wedi cael effaith fuddiol ar agweddau, nid oedd wedi arwain at welliant sylweddol yn nifer y disgyblion a oedd yn dewis eu hastudio. Canfu arolwg 2017 fod nifer y disgyblion a oedd yn astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4 yn parhau i ostwng, ym

Rhwng 2002 (y dyddiad cynharaf y mae ystadegau ar gael ar ei gyfer) a 2017, gostyngodd nifer yr ymgeiswyr a oedd yn astudio ITM ar lefel TGAU yng Nghymru fwy na 54%,

⁶Ffigurau gan www.jcq.org.uk

Mlwyddyn 10 ac ym Mlwyddyn 11 ac, mewn mwy na thraean o ysgolion, roedd llai na deg y cant o ddisgyblion Blwyddyn 10 yn astudio'r pwnc. Unwaith eto, ymchwiliodd arolwg 2018 i'r mater hwn, gan chwilio am arwyddion o adfywiad o ganlyniad i'r gweithgareddau hyrwyddo niferus sy'n mynd rhagddynt mewn ysgolion.

Dyfodol Byd-eang

Canfu arolygon yn y gorffennol lefel gyffredinol uchel o ymwybyddiaeth am fenter Llywodraeth Cymru o blaid ITM ac o gyfranogiad ynddi. Yn 2017, roedd 72 y cant o ymatebwyr wedi cymryd rhan yn ei rhaglen o weithgareddau. Olrheiniodd arolwg 2018 ymgysylltiad ysgolion â'r rhaglen a gofynnodd pa weithgareddau fu fwyaf defnyddiol a pha fesurau pellach yr hoffent iddynt gael eu datblygu.

Nifer y disgyblon sy'n astudio ITM ôl-16

Canfu arolwg 2016 fod grwpiau Safon Uwch ac UG yn fach iawn a chan fod y niferoedd yn gostwng, ei bod yn dod yn gynyddol anodd cyfiawnhau ymarferoldeb ariannol cynnig ITM i ddisgyblion ôl-16. Canfu arolwg 2017 fod y sefyllfa ar gyfer ITM ôl-16 yn fwy bregus byth. Roedd gan tua 44 y cant o ysgolion lai na phum disgybl yn astudio cyrsiau UG, ac roedd gan 61 y cant lai na phum disgybl yn astudio U2. Nodwyd anhawster canfyddedig arholiadau UG a Safon Uwch, cystadleuaeth gan bynciau eraill a'r gronfa ostyngol o ddisgyblion TGAU i'w denu fel rhesymau dros y niferoedd gostyngol o ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd modern ar y lefel hon. Casglodd arolwg 2018 wybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer ITM ôl-16 a'r rhesymau dros unrhyw ostyngiadau neu gynnydd pellach.

Staff addysgu

Yn 2017, dim ond un neu ddau athro llawn amser oedd gan bron i ddwy ran o dair o adrannau ITM (64 y cant) a dim ond un athro llawn amser sydd gan fwy nag un rhan o dair ohonynt (36 y cant). Roedd dibyniaeth sylweddol ar wladolion yr UE nad ydynt yn Brydeinig i addysgu ITM: mae cynifer â 34 y cant o ysgolion yn cyflogi athrawon iaith o aelod-wladwriaethau eraill naill ai'n rhan amser neu'n llawn amser. Gofynnodd arolwg 2018 pa mor hawdd ydyw i ysgolion recriwtio a chadw athrawon ITM o ansawdd uchel, ac ystyriodd i ba raddau y mae athrawon ITM yn cael DPP yn eu pwnc.

Gofynnodd arolwg 2018 pa mor hawdd ydyw i ysgolion recriwtio a chadw athrawon ITM o ansawdd uchel, ac ystyriodd i ba raddau y mae athrawon ITM yn cael DPP yn eu pwnc.

Ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd

Gan fod cyflwyno iaith dramor fodern ym Mlwyddyn 5 yn un o nodau *Dyfodol Byd-eang*, a bod creu maes cwricwlwm unigol ar gyfer ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o 3 oed yn un o nodau Dyfodol Llwyddiannus, roedd gwaith ymchwil Tueddiadau Ieithoedd 2016 yn cynnwys arolwg a oedd wedi'i dargedu'n benodol at ysgolion cynradd yng Nghymru. Canfu'r arolwg hwn y canlynol:



- Roedd ychydig dros chwarter o'r ysgolion cynradd a ymatebodd eisoes yn addysgu rhywfaint o ieithoedd tramor, er mai gweithgareddau allgyrsiol neu addysgu anffurfiol oedd hyn yn amlach na threfniadau addysgu wedi'u strwythuro mewn ffordd systemataidd.
- Ffrangeg oedd yr iaith a addysgwyd amlaf mewn ysgolion cynradd, wedi'i dilyn gan Sbaeneg.
- Addysgwyd ieithoedd yn amlach i ddisgyblion hŷn yn yr ysgol gynradd, er bod nifer fach o ysgolion yn cynnig Ffrangeg neu Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 1.
- Roedd ysgolion yn dueddol o ddefnyddio aelodau presennol o staff a oedd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol.
- Roedd ysgolion cynradd yn dibynnu'n bennaf ar eu hysgolion uwchradd lleol fel ffynhonnell cymorth bosibl o ran addysgu ITM.
- Er bod mwy na thri chwarter yr ysgolion cynradd a gymerodd ran yn yr arolwg mewn egwyddor o blaid cyflwyno trefniadau addysgu ITM, pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am gyllid a hyfforddiant ychwanegol.

Yn 2017, roedd tua thraean o athrawon ieithoedd tramor mewn ysgolion uwchradd o'r farn bod addysgu Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd yn paratoi disgyblion yn rhesymol ar gyfer dysgu iaith dramor gan ddechrau ym mlwyddyn 7. Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif ohonynt (dros 60 y cant) o'r farn bod addysgu'r naill iaith na'r llall yng Nghyfnod Allweddol 2 ar hyn o bryd yn helpu disgyblion i gaffael trydedd iaith wedi hynny. Er na chasglodd gwaith ymchwil eleni dystiolaeth yn uniongyrchol gan ysgolion cynradd, gofynnodd i ysgolion uwchradd am eu cysylltiadau â'u hysgol(ion) bwydo lleol ac i ba raddau y caiff disgyblion Cyfnod Allweddol 2 eu paratoi ar gyfer dysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 3.

The 2018 survey asked to what extent MFL departments work collaboratively with colleagues who teach Welsh and/or English and whether there are any particular barriers to closer working.

Ieithoedd tramor modern a Chymraeg

Un o ganfyddiadau allweddol arolwg 2016 oedd bod ITM a Chymraeg, yn hytrach nag ategu ei gilydd fel pynciau iaith, yn cystadlu am amser yn y cwricwlwm ac, mewn rhai achosion, fod profiadau gwael gan ddisgyblion o Gymraeg yn yr ysgol gynradd yn cael effaith negyddol ar agweddau tuag at ITM. O ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu maes cwricwlwm ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu newydd, gofynnodd arolwg 2018 i ba raddau y mae adrannau ITM yn cydweithio â chydweithwyr sy'n addysgu Cymraeg a/neu Saesneg a ph'un a oes unrhyw ffactorau penodol yn eu hatal rhag cydweithio'n agosach.

Ymgysylltiad rhwngwladol a Brexit

Yn 2017, nododd pedair ysgol allan o bump (82 y cant) eu bod yn trefnu teithiau tramor i'w disgyblion. Fodd bynnag, roedd dystiolaeth hefyd fod amharodrydd cynyddol ar ran rhieni a disgyblion i aros yng nghartrefi pobl eraill ac, mewn rhai achosion, bryderon ynghylch risgiau diogelwch a sefyllfaoedd gwleidyddol ansicr, yn effeithio'n andwyol ar deithiau cyfnewid disgyblion.

Yn arolwg 2017, nododd traean o athrawon ITM bod pleidlais refferendwm yr UE a phroses Brexit yn cael effaith ar eu profiad o addysgu eu pwnc, gyda'r effeithiau hyn i gyd, fwy neu lai, yn negyddol. Gwnaethant nodi effeithiau andwyol ar gymhellant disgyblion, pryderon am statws staff addysgu o wledydd eraill yn yr UE yn y dyfodol. Ystyriodd arolwg 2018 y themâu hyn unwaith eto, er mwyn olrhain datblygiadau.

Pryderon eraill a godwyd

Bob blwyddyn, mae'r arolygon Tueddiadau Ieithoedd yn cynnig cyfle i ymatebwyr godi materion eraill sy'n peri pryder iddynt i'w cynnwys yn adroddiad yr arolwg. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r materion hyn wedi cynnwys newidiadau i'r system opsiynau, manylebau TGAU a Safon Uwch newydd, cyflwyno Bagloriaeth Cymru a gostyngiad mewn oriau addysgu ar gyfer ITM. Maent hefyd wedi gofyn am fwy o gefnogaeth gan arweinwyr mewn ysgolion a chan y llywodraeth tuag at eu pwnc.

Yn arolwg 2017, nododd traean o athrawon ITM bod pleidlais refferendwm yr UE a phroses Brexit yn cael effaith ar eu profiad o addysgu eu pwnc, gyda'r effeithiau hyn i gyd, fwy neu lai, yn negyddol.

Pennod 2

Cynllunio'r ymchwil a chasglu data



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi rhagflaenu canlyniadau'r arolwg â dadansoddiad o'r niferoedd diweddaraf sydd wedi sefyll arholiadau TGAU a Safon Uwch, gan amlygu tueddiadau yn y nifer sy'n astudio'r pwnc ers 2002/2003.

Dadansoddi data arholiadau

Y ffigurau o ran y niferoedd sy'n sefyll arholiadau cyhoeddus fel TGAU a Safon Uwch a'r ffigurau cyflawniad ar eu cyfer yw un o'r ffynonellau cynhwysfawr prin o ddata cenedlaethol ar sefyllfa ieithoedd mewn ysgolion uwchradd. Felly, rhagflaenwyd canfyddiadau'r arolwg gan ddata arholiadau mewn perthynas ag ieithoedd, gan roi ymatebion ysgolion mewn cyd-destun ehangach a galluogi dehongliad mwy treiddgar. Mae'r data, a ddarparwyd gan y Cyd-bwyllgor Cymwysterau, yn cynnwys gwybodaeth gan ddysgwyr o bob oedran ac o bob math o sefydliadau yn cynnwys ysgolion, colegau addysg bellach a chanolfannau i oedolion.

Datblygu'r holiaduron

Datblygwyd yr holiadur yn ystod tymor yr hydref 2017 gan ymchwilyr drwy ymgynghori â grŵp cynghorol yn cynnwys cynrychiolwyr, British Council (Cymru) fel y sefydliad comisiynu, Estyn, a Phrifysgol Caerdydd/Llwybrau at Ieithoedd Cymru. Ymgynghorwyd hefyd â Llywodraeth Cymru. Lanlwythwyd y cwestiynau yn ddwyieithog ar y llwyfan arolygon ar-lein Survey Monkey a chynhaliwyd treial ar ddechrau mis Ionawr 2018.

Nod yr holiadur oedd cyfuno cwestiynau tebyg fel mewn blynyddoedd blaenorol, er mwyn olrhain tueddiadau dros amser, gan ganolbwyntio ar rai meysydd newydd er mwyn bwrw goleuni ar faterion na chawsant eu harchwilio o'r blaen. Mae cwestiynau newydd yn 2018 yn ystyried cwestiynau sy'n berthnasol i'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, megis graddau'r cydweithio rhwng adrannau Cymraeg, Saesneg ac ITM, i ba raddau y mae ysgolion uwchradd o'r farn bod eu hysgolion bwydo yn llwyddo i baratoi disgyblion i ddysgu ITM yn yr ysgol uwchradd ar hyn o bryd, a sut y gallent wneud hynny yn y dyfodol.

Nod yr holiadur oedd cyfuno cwestiynau tebyg fel mewn blynyddoedd blaenorol, er mwyn olrhain tueddiadau dros amser, gan ganolbwyntio ar rai meysydd newydd er mwyn bwrw goleuni ar faterion na chawsant eu harchwilio o'r blaen.

Casglu data

Ym mis Ionawr 2018, anfonwyd gwahoddiad dros e-bost i gwblhau'r holiadur ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg i bob un o'r 208 o ysgolion uwchradd gan Gyfarwyddwr y British Council yng Nghymru, wedi'i gyfeirio at bennaeth ieithoedd yr ysgolion hynny.

Anfonwyd nifer o e-byst atgoffa i'r ysgolion na wnaethant ateb, gan nodi mai diwedd tymor y gwanwyn oedd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion. Wedyn, ffonwyd yr ysgolion nad oeddent wedi ymateb gan staff dwyieithog er mwyn egluro dibenion a phwysigrwydd yr arolwg.

Ymatebodd cyfanswm o 135 o ysgolion uwchradd, sef cyfradd ymateb o 65 y cant, a oedd yn uwch na'r gyfradd o 56 y cant a gyflawnwyd yn 2017 ac yn gyffredinol yn cynrychioli proffil cenedlaethol ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Cymharwyd y sampl a gyflawnwyd â'r boblogaeth ysgolion genedlaethol, gan ddangos bod yr ysgolion a ymatebodd yn cyfateb yn agos i ysgolion yn genedlaethol o ran dosbarthiad rhanbarthol, ystod oedran disgyblion a'r math o ysgol. O ran cyfrwng yr addysgu, roedd ysgolion Cymraeg wedi'u gorgynrychioli i ryw raddau - ceir manylion llawn yn yr Atodiad.

Dadansoddi'r data

Un o ganfyddiadau allweddol astudiaeth Gorwel oedd mai'r rheini sy'n byw yng nghymunedau lleiaf llewyrchus Cymru, a'r rheini y mae angen cynyddu eu gweithgarwch economaidd fwyaf drwy fasnach ryngwladol, hefyd yw'r rheini sydd leiaf tebygol o ymgymryd ag addysg ITM.⁷

Mae ein dadansoddiad yn ystyried y mater hwn ymhellach drwy ymchwilio i unrhyw batrymau yn yr ymatebion i'r arolwg yn ôl nodweddion gwahanol ysgolion yn cynnwys dangosydd economaidd-gymdeithasol (yn seiliedig ar gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, rhanbarth, math o ysgol a chyfrwng yr addysgu. Mae'r sampl gymharol fach yn golygu, o'i dadansoddi ymhellach, bod nifer yr ysgolion ym mhob is-sampl yn rhy fach i ddarparu data cadarn ar yr amrywiadau yn ymatebion gwahanol fathau o ysgolion o fewn rhai cwestiynau. Er hyn, dadansoddwyd yr ymatebion i nifer o gwestiynau fel hyn, a nodwyd sylwadau yn y testun lle gellir canfod unrhyw batrwm o sampl digon mawr.


Ymatebodd cyfanswm o 135 o ysgolion uwchradd, sef cyfradd ymateb o 65 y cant, a oedd yn uwch na'r gyfradd o 56 y cant a gyflawnwyd yn 2017 ac yn gyffredinol yn cynrychioli proffil cenedlaethol ysgolion uwchradd yng Nghymru.

⁷Roberts, *Mind Your Language*.

⁸Ni lwyddwyd i ymchwilio i gydberthyniadau posibl â data cyrhaeddiad cyffredinol ysgolion, gan nad oedd data cenedlaethol ar lefel ysgolion ar gael i ni.

Pennod 3


Data arholiadau ysgolion yng Nghymru



Daw'r ffigurau a ddangosir isod o ystadegau'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau ar nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau a gyhoeddir ym mis Awst bob blwyddyn ac maent yn cwmpasu nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU a Safon Uwch bob blwyddyn, yn cynnwys disgyblion o ddarparwyr addysg bellach, addysg i oedolion ac addysg wirfoddol. Mae'r ffigurau cynharaf sydd ar gael ar gyfer 2001, yn achos Safon Uwch, a 2002, yn achos TGAU, ac mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer haf 2018.

TGAU

FFIGUR 1: NIFER Y DISGYBLION A SAFODD ARHOLIADAU TGAU MEWN IAITH DRAMOR FODERN YNG NGHYMURU, 2002-2018



Ers 2002, mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau mewn ieithoedd tramor modern yng Nghymru wedi lleihau 57%, er bod angen deall y ffigur hwn yng nghyd-destun gostyngiad cyffredinol o 10% yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU yng Nghymru, ar draws pob pwnc.

Mae'r gostyngiad wedi effeithio ar Almaeneg a Ffrangeg, gyda dim ond 29% o lefel 2002 yn sefyll arholiadau mewn Almaeneg, a 36% o nifer yr ymgeiswyr yn 2002 yn sefyll arholiadau mewn Ffrangeg. Mae Sbaeneg wedi cynyddu 8% ers 2002, a nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau mewn ieithoedd eraill wedi cynyddu 26%, gyda'r ddau o sail llawer is na Ffrangeg ac Almaeneg.

Nid yw'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Ffrangeg rhwng 2017 a 2018 mor sylweddol â'r gostyngiad yn ystod y ddwy flynedd flaenorol (dim ond 5% o gymharu ag 11% o 2016-2017 a 10% rhwng 2015 a 2016), a llwyddwyd i atal y gostyngiad mewn Almaeneg, eleni o leiaf, gydag un ymgeisydd ychwanegol o gymharu â 2017. Gall hyn fod yn arwydd bod rhai o'r ymdrechion sy'n mynd rhagddynt i wella nifer y disgyblion sy'n astudio'r pynciau hyn wedi cael rhywfaint o effaith. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, gostyngodd nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Sbaeneg 23% rhwng 2017 a 2018.

leithoedd eraill

Yn y categori 'leithoedd eraill' gall fod 16 o ieithoedd tramor modern eraill, yn ogystal â Gwyddeleg, Lladin a Groeg Hynafol, a gynigir ar lefel TGAU ar hyn o bryd; fodd bynnag, ni all y Cyd-bwyllgor Cymwysterau roi dadansoddiad o'r rhain ar gyfer Cymru gan fod y niferoedd yn fach iawn. Mae'n debygol bod llawer o'r niferoedd yn y categori 'leithoedd Eraill' yn dod o'r sectorau addysg bellach, addysg i oedolion ac addysg wirfoddol gan fod canlyniadau arolygon o Dueddiadau leithoedd yn dangos mai prin iawn yw'r ieithoedd heblaw am Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg a addysgir mewn ysgolion yng Nghymru.

Data gan Ystadegau Cymru

Nid yw Ystadegau Cymru yn cyhoeddi data ar gyfran y garfan 15 oed sy'n astudio gwahanol bynciau. Fodd bynnag, maent yn cyhoeddi niferoedd crai, sy'n golygu y gellir cymharu'r niferoedd sy'n astudio ITM â phynciau eraill, fel a ganlyn:

FFIGUR 2

Pwnc	Nifer yr ymgeiswyr 15 oed, 2015	2016	2017	Gwahaniaeth 2015-2017
Ffrangeg	4,793	4,124	3,558	-26%
Almaeneg	1,024	1,072	717	-30%
Sbaeneg	1,745	1,252	1,351	-23%
leithoedd tramor modern eraill	394	443	447	-13%
Pob Iaith Dramor Fodern	7,956	6,891	6,073	-24%
Hanes	11,667	10,820	9,395	-19%
Gwyddoniaeth Ychwanegol	11,927	11,885	15,300	+28%
Mathemateg	34,871	33,301	31,259	-10%


<https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup>

Mae'r data hyn yn datgelu sut y mae ITM, o flwyddyn i flwyddyn, yn dod yn bwnc cynyddol ymylol ar lefel TGAU. Bellach mae cyfanswm nifer y disgyblion 15 oed sy'n astudio pynciau ITM (gan gynnwys 'leithoedd Eraill') yn 2017 yn cyfateb i ddim ond 19 y cant o'r nifer sy'n astudio Mathemateg (gostyngiad o 23% yn 2015), 40% o'r nifer sy'n astudio Gwyddoniaeth Ychwanegol (gostyngiad sylweddol o 67% yn 2015), a llai na dwy ran o dair y nifer sy'n astudio Hanes (64 y cant - 68% yn flaenorol).

Mae'r data hyn yn datgelu sut y mae ITM, o flwyddyn i flwyddyn, yn dod yn bwnc cynyddol ymylol ar lefel TGAU.

Safon Uwch

FFIGUR 3: NIFER Y DISGYBLION A SAFODD ARHOLIADAU SAFON UWCH MEWN IAITH DRAMOR FODERN YNG NGHYMURU, 2001-2018



Er bod y niferoedd sy'n astudio Mathemateg a Hanes hefyd wedi lleihau yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd, bu cyfraddau'r gostyngiad yn llawer is na'r gostyngiad o 24% yn y nifer sy'n astudio ITM, sy'n golygu bod yr anghysondebau rhwng ITM a phynciau eraill yn dod yn fwy amlwg.

Ers 2001, mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch mewn pynciau ieithoedd tramor modern yng Nghymru wedi haneru. Dim ond 33% o nifer y disgyblion a safodd arholiadau mewn Ffrangeg yn 2001 a wnaeth hynny yn 2018, a gwelwyd gostyngiad o 81% mewn Almaeneg yn ystod yr un cyfnod. Gwelwyd gostyngiad o dua draean hefyd mewn Sbaeneg a dim ond y nifer sy'n sefyll arholiadau mewn pynciau iaith eraill – y rheini nas haddysgir yn gyffredinol mewn ysgolion yng Nghymru – sydd wedi cynyddu. Mae'r nifer sy'n sefyll arholiadau mewn ieithoedd eraill bellach yn cyfrif am 34% o'r holl ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch mewn iaith fodern yng Nghymru, o gymharu â dim ond 3% yn 2001.

Parhaodd y ffigurau ar gyfer y flwyddyn rhwng 2017 a 2018 â thueddiadau'r cyfnodau blaenorol. Gwelwyd gostyngiad o 6% mewn Ffrangeg, 33% mewn Almaeneg a 12% mewn Sbaeneg. Mae'r gostyngiad sylweddol iawn mewn Almaeneg yn ychwanegol at ostyngiad o 15% rhwng 2016 a 2017, lle roedd Sbaeneg wedi cynyddu 10% rhwng 2016 a 2017.


Ieithoedd eraill

Fel y nodwyd mewn arolygon blaenorol o Dueddiadau Ieithoedd, nid yw'r 'ieithoedd Eraill' fel arfer yn cynnwys ieithoedd a addysgir fel pynciau prif ffrwd mewn ysgolion yng Nghymru. Efallai eu bod yn dod o'r sector AB neu addysg i oedolion, neu'n ddisgyblion sydd â mynediad i'r ieithoedd hynny yn eu cartrefi a'u cymunedau ac sy'n paratoi ar gyfer arholiadau y tu allan i'r prif ddiwrnod ysgol. Ar hyn o bryd, cynigir cyfanswm o 17 o ieithoedd eraill yn ogystal â'r tair prif iaith Ewropeaidd ar lefel Safon Uwch, ond nid yw'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau yn dadansoddi'r niferoedd hyn ar gyfer Cymru yn unig, heblaw am nodi na safodd neb yr arholiad ar gyfer Gwyddeleg.

Ers 2001, mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch mewn pynciau ieithoedd tramor modern yng Nghymru wedi haneru.

Niferoedd a safodd arholiadau UG

FFIGUR 4: NIFER Y DISGYBLION A SAFODD ARHOLIADAU UG MEWN FFRANGEG, ALMAENEG A SBAENEG, 2010-2018



Nid yw nifer y disgyblion a safodd arholiadau UG mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yn awgrymu y bydd y sefyllfa ar gyfer U2 yn gwella yn 2019, gyda gostyngiadau parhaus ar gyfer y tair iaith.

Fodd bynnag, mae'r gyfradd drosi o UG i U2 wedi gwella ychydig rhwng 2017 a 2018. Roedd ffigurau U2 mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg wedi'u cyfuno yn cynrychioli 64% o nifer y disgyblion a safodd arholiadau UG yn y pynciau hyn y flwyddyn flaenorol, cyfradd nas gwelwyd ers 2012/13:

FFIGUR 5: CYFRADDAU TROSI O UG I U2 MEWN FFRANGEG, ALMAENEG A SBAENEG


	UG	U2	
2010-11	1,647	1,064	65%
2011-12	1,509	998	66%
2012-13	1,262	832	66%
2013-14	1,186	749	63%
2014-15	1,278	800	63%
2015-16	1,134	701	62%
2016-17	1,069	639	60%
2017-18	876	563	64%

Nid yw nifer y disgyblion a safodd arholiadau UG mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yn awgrymu y bydd y sefyllfa ar gyfer U2 yn gwella yn 2019, gyda gostyngiadau parhaus ar gyfer y tair iaith.

TGAU

Dengys ffigurau fod y gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau ITM yn gysylltiedig â thuedd gynyddol bod mwy o ferched yn sefyll arholiadau ITM, yn enwedig mewn Ffrangeg a Sbaeneg. Fodd bynnag, mae'r gwrthwyneb yn wir mewn Almaeneg, lle mae dosbarthiad y disgyblion sy'n sefyll arholiadau yn ôl rhyw yn dod yn fwy cyfartal:


FFIGUR 6: CYMHAREB MERCHED I FECHGYN YMHLITH Y DISGYBLION A SAFODD ARHOLIADAU TGAU ITM, 2016 A 2018



Safon Uwch


O ran cymwysterau Safon Uwch, lle y bu'r duedd tuag at ferched yn fwy amlwg byth, mae hyn hefyd yn cynyddu. Bu cynnydd yn y duedd tuag at ferched ym mhob pwnc iaith ac eithrio Ffrangeg, lle y parhaodd y gyfradd wahaniaethol uchel iawn o 73% yn sefydlog:

FFIGUR 7: CYMHAREB MERCHED I FECHGYN YMHLITH Y DISGYBLION A SAFODD ARHOLIADAU SAFON UWCH ITM, 2016 A 2018



Pennod 4

Canfyddiadau'r arolwg




Y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4

Pa gyfran o'r disgyblion sy'n astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 ar hyn o bryd?

Mae cyfran yr ysgolion lle mae llai na 10% o'r disgyblion yn astudio iaith ym Mlwyddyn 10 wedi cynyddu i 43%, tystiolaeth glir fod nifer yr ysgolion â niferoedd bach iawn yn astudio ieithoedd hyd at lefel TGAU yn cynyddu'n gyflym.

Mae cyfran yr ysgolion lle mae llai na 10% o'r disgyblion yn astudio iaith ym Mlwyddyn 10 wedi cynyddu i 43%,


FFIGUR 8: CYFRADDAU CYFRANOGIAD ITM YM MLWYDDYN 10, 2016-2018



Gan edrych ar y ffigurau ar gyfer Blwyddyn 11, mae'r duedd ar i lawr yn amlwg. Bob blwyddyn, mae mwy o ysgolion yn y band isaf ar gyfer cyfranogiad mewn ITM ym Mlwyddyn 10 nag ym Mlwyddyn 11. Mae hyn yn awgrymu bod y ffigurau TGAU ar gyfer ITM yn debygol o barhau i ostwng yn 2019.

Gan edrych ar y ffigurau ar gyfer Blwyddyn 11, mae'r duedd ar i lawr yn amlwg.

FFIGUR 9: CYFRADDAU CYFRANOGIAD ITM YM MLWYDDYN 11, 2016-2018




Fodd bynnag, mae'r ffigurau yn awgrymu bod rhai ysgolion yn mynd yn groes i'r duedd hon. Dywedodd traean o ysgolion (33%) fod ganddynt fwy o ddisgyblion yn astudio ITM ym Mlwyddyn 10 ar hyn o bryd nag yn ystod y flwyddyn flaenorol, a dywedodd chwarter (25%) fod yr un peth yn wir ar gyfer Blwyddyn 11. Fodd bynnag, dywedodd 46% o ysgolion fod niferoedd wedi gostwng ym Mlwyddyn 10 a nododd 37% fod hyn yn wir ar gyfer Blwyddyn 11 hefyd.

Dengys y tabl isod, o gymharu â 2017, fod mwy o ysgolion yn nodi bod niferoedd wedi cynyddu, ond mewn perthynas â Blwyddyn 10, er bod 38% o ysgolion wedi dweud bod niferoedd wedi gostwng yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn yr arolwg eleni wedi codi i 46%. Rhaid i ni ddod i'r casgliad, er bod rhai ysgolion wedi llwyddo i gynyddu niferoedd, bod nifer fwy ohonynt yn dal i wynebu tuedd ar i lawr o ran nifer y disgyblion sy'n astudio ITM.

Rhaid i ni ddod i'r casgliad, er bod rhai ysgolion wedi llwyddo i gynyddu niferoedd, bod nifer fwy ohonynt yn dal i wynebu tuedd ar i lawr o ran nifer y disgyblion sy'n astudio ITM.

FFIGUR 10: SUT MAE'R NIFEROEDD AR GYFER ITM YN CYMHARU Â'R LLYNEDD?



Mae'r ysgolion ble mae mwy o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn dysgu ITM o gymharu â'r llynydd yn fwy tebygol yn ystadegol o fod â lefelau is o ddisgyblion sydd yn cael Prydau Ysgol am Ddim.

Nodweddion ysgolion â lefelau cyfranogi isel mewn ITM ar lefel TGAU

Mae dadansoddiad o'r data yn ôl lefelau cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cadarnhau canfyddiadau adroddiad Gorwel fod cydberthyniad ar lefel awdurdodau lleol rhwng ffactorau economaidd a'r nifer o ddisgyblion sy'n astudio ITM ar lefel TGAU.⁹ Yn gyffredinol, mae ysgolion lle ceir cyfran uwch o fyfyrwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn fwy tebygol o fod â lefelau isel o gyfranogiad mewn ITM yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae ysgolion lle mae llai nag un o bob deg disgybl yn astudio ITM ym Mlwyddyn 10 hefyd yn ystadegol yn fwy tebygol o fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Yn gyffredinol, mae ysgolion lle ceir cyfran uwch o fyfyrwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn fwy tebygol o fod â lefelau isel o gyfranogiad mewn ITM yng Nghyfnod Allweddol 4.

⁹Roberts, *Mind Your Language*.

A yw'r duedd hon yn effeithio ar fechgyn a merched i'r un graddau?

Nododd dros draean o ysgolion (38%) fod mwy o ferched yn astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4, ond dim ond 3% o ysgolion a nododd fod mwy o fechgyn yn gwneud hynny. Nododd dros draean (37%) fod bechgyn a merched wedi'u cynrychioli'n gyfartal mewn ITM yng Nghyfnod Allweddol 4, a nododd 6% fod y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn wahanol bob blwyddyn, neu gan ddibynnu ar yr iaith a gynigir. Lle roedd y niferoedd yn wahanol gan ddibynnu ar ba iaith a gynigir, roedd y sampl yn rhy fach i nodi unrhyw dueddiadau penodol o ran pa ieithoedd sy'n fwy deniadol i fechgyn neu ferched. Nid oedd ychydig dros 10% o ysgolion yn siŵr sut roedd rhywedd yn dylanwadu ar dueddiadau o ran astudio ITM yn eu hysgol.

FFIGUR 11: GOGWYDD RHYWEDD AR LEFEL TGAU

	Nifer yr ysgolion
Mwy o ferched yn astudio ITM	51
Mwy o fechgyn yn astudio ITM	4
Mae'r effaith yn ôl rhywedd fel arfer yn gyfartal	50
Mae'r patrymau rhywedd yn wahanol bob blwyddyn neu yn ôl yr iaith a addysgir	8

Nododd dros draean (37%) fod bechgyn a merched wedi'u cynrychioli'n gyfartal mewn ITM yng Nghyfnod Allweddol 4, a nododd 6% fod y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn wahanol bob blwyddyn, neu gan ddibynnu ar yr iaith a gynigir

Pa ddulliau gweithredu y mae ysgolion yn eu defnyddio wrth ddarparu ITM yng Nghyfnod Allweddol 4?

Nododd ymatebwyr, yn y mwyafrif helaeth o ysgolion (93%), fod ITM yn bwnc dewisol i bob disgybl. Mewn un ysgol, mae'n orfodol i rai disgyblion. Fodd bynnag, dim ond 13% o ymatebwyr a nododd fod eu hysgol yn annog pob disgybl i astudio ITM a dywedodd 18% eu bod mewn gwirionedd yn annog rhai disgyblion i beidio ag astudio'r pwnc.

Dywedodd yn union hanner yr ysgolion a ymatebodd nad yw ITM yn gydnaws â rhai dewisiadau o ran opsiynau, gan nodi ei fod yn broblem sylweddol. Dywedodd llai nag un o bob pump (17%) fod negeseuon cadarnhaol yn cael eu lledaenu ynghylch ITM gan staff gyrfaedd ac uwch reolwyr ac yn y rhan fwyaf o achosion (93%), staff ITM oedd yn annog disgyblion i astudio'r pwnc.

FFIGUR 12: PA DDULLIAU GWEITHREDU A DDEFNYDDIR MEWN PERTHYNAS Â NIFER Y DISGYBLION SY'N ASTUDIO ITM YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 4? (CANIATEIR MWY NAG UN YMATEB)

Mae ITM yn bwnc dewisol i bob disgybl	93%
Mae'r adran ITM yn annog disgyblion i astudio ITM	93%
Nid yw ITM yn gydnaws â rhai dewisiadau o ran opsiynau	50%
Caiff rhai disgyblion eu hannog i beidio ag astudio ITM	18%
Mae staff gyrfaedd ac uwch reolwyr yn lledaenu negeseuon cadarnhaol ynghylch astudio ITM	17%
Mae'r ysgol yn annog pob disgybl i astudio ITM	13%
Mae ITM yn orfodol i rai disgyblion	1%
Mae ITM yn orfodol i bob disgybl	0%

Dywedodd yn union hanner yr ysgolion a ymatebodd nad yw ITM yn gydnaws â rhai dewisiadau o ran opsiynau, gan nodi ei fod yn broblem sylweddol.

Yn ystadegol, mae ysgolion sy'n nodi eu bod yn annog pob disgybl i astudio ITM yn fwy tebygol o fod â lefelau is o gymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac yn fwy tebygol o fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig: mae 23% o ysgolion gwledig yn 'annog pob disgybl', o gymharu â dim ond 8% o ysgolion trefol.



Roedd ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd yn ystadegol yn fwy tebygol o nodi eu bod yn 'annog pob disgybl' (30%) nag ysgolion cyfrwng di-Gymraeg (7%). Nid yw hyn o reidrwydd yn mynd yn groes i'r dystiolaeth a ddyfynnwyd uchod eu bod yn fwy tebygol o fod â lefelau isel iawn o ddisgyblion yn astudio'r pwnc.

Roedd ysgolion â disgyblion o 11 i 19 oed yn ystadegol yn fwy tebygol o 'annog pob disgybl' (13%), o gymharu ag ysgolion â disgyblion o 11 i 16 oed (6%). Gall hyn awgrymu fod cael Chweched Dosbarth mewn ysgol o fudd i statws addysg iaith mewn rhyw ffordd, o bosibl gan fod ysgolion yn fwy tebygol o annog disgyblion i astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4 os oes ganddynt gyrsiau ITM i'w cynnal ar lefel ôl-16 hefyd.

Pwyntiau allweddol

- Mae lefelau cyfranogiad mewn ITM ar lefel TGAU yn parhau i ostwng ledled Cymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r niferoedd wedi cynyddu mewn rhai ysgolion.
- Mae cyfran yr ysgolion lle mai dim ond un o bob deg disgybl neu lai sy'n astudio iaith y tu hwnt i 14 oed wedi cynyddu o 24% i 43% mewn dwy flynedd.
- Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac ysgolion lle mae cyfran uwch o ddisgyblion yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, yn fwy tebygol o fod â lefelau isel o ddisgyblion yn astudio'r pwnc.
- Mewn 50% o ysgolion, mae blociau opsiynau yn atal disgyblion rhag astudio ITM os byddant yn dewis pynciau eraill penodol.
- Dim ond nifer fach o uwch reolwyr ysgolion a staff gyrfaoedd sy'n lledaenu negeseuon cadarnhaol am astudio ITM

Yn ystadegol, mae ysgolion sy'n nodi eu bod yn annog pob disgybl i astudio ITM yn fwy tebygol o fod â lefelau is o gymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac yn fwy tebygol o fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig: mae 23% o ysgolion gwledig yn 'annog pob disgybl', o gymharu â dim ond 8% o ysgolion trefol.

Effaith Dyfodol Byd-eang a mentrau eraill


Roedd tua naw o bob deg o ysgolion (87%) a atebodd yr arolwg wedi cymryd rhan mewn Dyfodol Byd-eang mewn rhyw ffordd, cynnydd o 73% yn arolwg y llynedd.

Pa fathau o weithgareddau y mae ysgolion wedi cymryd rhan ynddynt?


O blith y 121 o ysgolion a atebodd y cwestiwn hwn, roedd tua naw o bob deg wedi cymryd rhan mewn DPP a/neu wedi defnyddio deunyddiau ac adnoddau a ddarparwyd drwy Dyfodol Byd-eang. Gall cyfran uchel adlewyrchu gwyrriad yn y sampl: efallai bod ysgolion sydd mewn cysylltiad agos â'u consortiwm rhanbarthol yn fwy tebygol o fod wedi cwblhau'r arolwg. Roedd mwyafrif sylweddol (79%) wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu nifer y disgyblion. Fodd bynnag, roedd llai na thraean wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u hanelu at ddatblygu trefniadau ar gyfer addysgu ITM mewn ysgolion cynradd. Dywedodd mwy na hanner nad oeddent wedi cael cynnig gweithgareddau o'r fath, a dywedodd 19% arall eu bod wedi cael cynnig ond na wnaethant gymryd rhan.

Roedd tua naw o bob deg o ysgolion (87%) a atebodd yr arolwg wedi cymryd rhan mewn Dyfodol Byd-eang mewn rhyw ffordd, cynnydd o 73% yn arolwg y llynedd.

FFIGUR 13: CYFRANOGIAD MEWN GWEITHGAREDDAU DYFODOL BYD-EANG



FFIGUR 14: BARN AR WEITHGAREDDAU DYFODOL BYD-EANG



Roedd y mwyafrif helaeth o gyfranogwyr ym mhob gweithgaredd yn gadarnhaol o blaid y gweithgaredd hwnnw, gyda rhai eithriadau prin. Help i gynyddu nifer y disgyblion oedd y gweithgaredd a gafodd y ganmoliaeth uchaf gyda 48% o gyfranogwyr yn nodi ei fod yn 'ddefnyddiol iawn' a gofynnwyd cwestiwn ychwanegol (gweler isod) er mwyn nodi pa weithgareddau a fu fwyaf llwyddiannus a pha effaith a gawsant.

Roedd 24% o athrawon a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn ymwneud â gweithredu i ddatblygu trefniadau ar gyfer addysgu ITM mewn ysgolion cynradd o'r farn 'nad oeddent yn ddefnyddiol iawn' (sy'n cyfateb i 8 unigolyn). Efallai mai'r rheswm am hyn yw nad yw'n flaenoriaeth uniongyrchol i ysgolion uwchradd. Roedd mwy o gyfranogwyr o'r farn bod yr adnoddau/deunyddiau a'r DPP a ddarparwyd drwy Dyfodol Byd-eang yn 'gymharol ddefnyddiol' nag yn 'ddefnyddiol iawn', er bod 90% o ymatebwyr yn arddel barn gadarnhaol amdanynt yn y ddau achos.¹⁰


Roedd y mwyafrif helaeth o gyfranogwyr ym mhob gweithgaredd yn gadarnhaol o blaid y gweithgaredd hwnnw, gyda rhai eithriadau prin.

Gweithgareddau i annog disgyblion i astudio ITM

Ymatebodd cant o ysgolion i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer fawr o ysgolion wedi cymryd rhan mewn sgysiau Gyrfaoedd a digwyddiadau eraill. Trefnwyd gweithgareddau eraill gan Brifysgol Caerdydd ar sail beilot a oedd yn cynnwys llai o ysgolion.

¹⁰Gweler hefyd y cwestiwn ar wahân ar DPP, yr ymdrinnir ag ef ar dudalen 42.

FFIGUR 15: CYFRANOGIAD MEWN GWEITHGAREDDAU I ANNOG DISGYBLION I ASTUDIO ITM




Nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion a gymerodd ran yn y prosiectau Tyrbo-diwtora a Mentora Digidol mewn sefyllfa i gyflwyno sylwadau ar eu heffeithiolrwydd gan ei bod yn rhy gynnar i lunio barn ar hynny. Fodd bynnag, nodwyd bod y prosiect mentora ITM yn effeithiol o ran gwella nifer y disgyblion a oedd yn astudio'r pwnc mewn 61% o achosion – sy'n gydnaws â chanfyddiadau gwerthuso'r prosiect ei hun.¹¹ Nododd tua'r un ganran o ymatebwyr hefyd fod 'digwyddiadau eraill' (60%) yr un mor effeithiol wrth wella nifer y disgyblion a oedd yn astudio'r pwnc. Nodwyd bod sgyrsiau gyrfaoedd yn effeithiol wrth wella nifer y disgyblion a oedd yn astudio'r pwnc mewn 52% o achosion. Nodwyd hefyd bod y gweithgareddau hyn yn effeithiol wrth gynyddu brwdfrydedd tuag at ITM, gan gynyddu eu heffeithiolrwydd cyffredinol hyd at 75-80% o ysgolion ym mhob achos.

Nododd tua'r un ganran o ymatebwyr hefyd fod 'digwyddiadau eraill' (60%) yr un mor effeithiol wrth wella nifer y disgyblion a oedd yn astudio'r pwnc.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth fod gan ysgolion a nododd ostyngiadau lefelau isel o ymgysylltiad â'r Consortia Rhanbarthol.

FFIGUR 16: BARN AR WEITHGAREDDAU I HYRWYDDO ITM (SAIL: YR YSGOLION SY'N CYMRYD RHAN)



¹¹Alcantara Communications, *Raising the profile of MFL mentoring initiative. Evaluator's final report*, Gorffennaf 2017.

Pa weithgareddau pellach y byddai ysgolion yn hoffi iddynt gael eu datblygu?

When asked about the next phase of the *Global Futures* programme, the top four activity suggestions for schools, in order of importance, were as follows:

1. Mwy o adnoddau, rhannu adnoddau a chyfleoedd DPP, yn arbennig ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 (29 o ymatebion):
"Mwy o gyfleoedd ar gyfer DPP – yn enwedig ar gyfer CA4 a CA5 gyda'r manylebau TGAU a Safon Uwch newydd. Mwy o adnoddau i athrawon ITM eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth."
"Datblygu Cynlluniau Gwaith mwy arloesol yn CA3 er mwyn paratoi'n well ar gyfer y TGAU newydd"
2. Gwell cysylltiadau a chydberthnasau â busnesau a phrifysgolion er mwyn pwysleisio'r amrywiaeth o yrfaedd posibl mewn ITM (17 o ymatebion):
"Cysylltiadau â busnesau lleol a sgysiau gan brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton ar werth ieithoedd (o amrywiaeth o wahanol feysydd)."
"Cysylltiadau agosach â Phrifysgolion ac â myfyrwyr sy'n astudio pynciau heblaw am ITM ar gyfer eu Gradd ond sy'n teimlo bod dysgu ITM wedi bod o fudd iddynt."
3. Gweithgareddau wedi'u targedu'n uniongyrchol at Uwch Dimau Arwain (UDA) er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd ITM, neu weithgareddau sy'n helpu athrawon ITM i ennyn diddordeb eu UDA (16 o ymatebion):
"Annog UDA/Llywodraeth Cymru i ddeall pwysigrwydd ITM. Nid yw Brexit wedi helpu gan fod disgyblion yn teimlo ei fod yn llai pwysig byth a chredaf fod angen yn sicr i Lywodraeth Cymru roi camau ar waith i egluro ei fod yn bwysicach nag erioed!!"
"Nid dewis gwell o weithgareddau sydd ei angen o reidrwydd ond yr amser i'w rhoi ar waith (gan fod yr holl brosiectau a gynhelir gennym yn cael eu cynnal yn ychwanegol at ein horiau addysgu/asesu arferol) a newid agwedd tuag at ieithoedd yn gyffredinol (gan nad yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion/rhieni yn eu gwerthfawrogi)."
4. Ymgyrchoedd hyrwyddo sy'n pwysleisio gwerth ieithoedd, ledled y wlad yn gyffredinol, ac mewn ysgolion er mwyn cynyddu nifer y disgyblion sy'n eu hastudio ac yn ymgysylltu â nhw (14 o ymatebion).
"Negeseuon cenedlaethol, lefel uchel am bwysigrwydd ieithoedd ar ôl Brexit. Negeseuon i benaethiaid am bwysigrwydd sicrhau digon o amser o fewn y cwricwlwm. Pwysigrwydd cynnig y cyfle i ddisgyblion ddysgu MWY NAG UN ITM fel rhan o'r cwricwlwm. Pwysigrwydd cyfuno ITM â phynciau STEM, oherwydd ar hyn o bryd, rhoddir blaenoriaeth i bynciau STEM ar draul ITM."

Awgrymodd 12 o sylwadau y dylid rhoi blaenoriaeth uwch i newid polisi y tu hwnt i gwmpas gweithgareddau Dyfodol Byd-eang nag i addasu Dyfodol Byd-eang ei hun, er enghraifft:

"Cynnwys cymhwyster ITM o bosibl fel rhan o Fagloriaeth Cymru, fel y gwneir ym Magloriaeth Lloegr."

Nid dewis gwell o weithgareddau sydd ei angen o reidrwydd ond yr amser i'w rhoi ar waith.

Soniwyd am anhawster neu anaddasrwydd arholiadau TGAU ac UG yn aml yn hyn o beth:

“Credaf mai'r brif broblem yw'r arholiad TGAU, yn arbennig fersiwn CBAC. Dwi ddim yn siŵr sut y gall Dyfodol Byd-eang helpu.”

“Mae'n anodd iawn gweld sut y gall Dyfodol Byd-eang gyrraedd disgyblion pan fyddant o'r farn bod yr arholiad yn sylweddol anos na llawer o bynciau eraill (a bod hynny'n wir); rydym yn addysgu cynnwys a thechnegau UG ar lefel TGAU erbyn hyn. Mae'r ddau ffactor arall sy'n ymwneud â phrysurdeb amserlen CA4/diffyg dewis o fewn y cwricwlwm o ran pynciau opsiwn o ystyried bod yn rhaid astudio un pwnc gwyddoniaeth, Bagloriaeth Cymru a Chymraeg fel pwnc gorfodol.”

“Mae'r cyfleoedd rhwydweithio a DPP yn ardderchog, ond o ran “achub” nifer y disgyblion sy'n astudio ITM, ni wneir unrhyw gynnydd gan fod yr arholiadau yn dod yn anos, a hynny mewn modd afrealistig ac annheg, ac nid oes unrhyw wneuthurwyr penderfyniadau go iawn (gweinidogion, penaethiaid... ac ati...) mewn gwirionedd yn cymryd rhan weithredol yn y broses.”

“Mae angen i ni wella cynnwys y meysydd llafur a gynigir gan CBAC. Mae'n gymharol hawdd darbwylo plant bod ieithoedd yn bwysig, ond gall cynnwys y cyrsiau, yn enwedig ar lefel UG, fod yn drwm iawn ac yn ddiflas. O ganlyniad, mae myfyrwyr disglair yn rhoi'r gorau i'r pwnc.”

Mae themâu pellach sy'n deillio o'r cwestiwn hwn yn ymwneud â logisteg gweithgareddau Dyfodol Byd-eang o ran mynediad daearyddol:

“Mwy o weithgareddau yng ngogledd Powys gan fod Caerdydd ac Abertawe yn rhy bell.”

“...mwy o ffocws ar ddarparu gweithgareddau yn rhanbarthau Cymru, mae'n amhosibl teithio o'r gogledd i'r de a dychwelyd adref mewn diwrnod!”

Pwyntiau allweddol

- Mae Dyfodol Byd-eang wedi cynyddu ei gyrhaeddiad ers arolwg y llynedd, ac ystyrir ei weithgareddau mewn modd cadarnhaol.
- Cafwyd gwerthfawrogiad arbennig i gamau gweithredu i gynyddu nifer y disgyblion.
- Mae rhai gweithgareddau yn rhy newydd o hyd i ysgolion nodi eu hef faith.
- Nifer gymharol fach o ysgolion uwchradd sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo ITM mewn ysgolion cynradd ac nid ydynt o'r farn bod y gweithgaredd hwn mor ddefnyddiol â gweithgareddau eraill a drefnir drwy Dyfodol Byd-eang.
- Nododd ymatebwyr fod angen gwneud newidiadau y tu hwnt i gwmpas Dyfodol Byd-eang er mwyn atal y gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio ITM.

Mae angen i ni wella cynnwys y meysydd llafur a gynigir gan CBAC. Mae'n gymharol hawdd darbwylo plant bod ieithoedd yn bwysig, ond gall cynnwys y cyrsiau, yn enwedig ar lefel UG, fod yn drwm iawn ac yn ddiflas. O ganlyniad, mae myfyrwyr disglair yn rhoi'r gorau i'r pwnc.

Ieithoedd tramor modern ôl-16


Mae 92 o'r 133 o ysgolion a ymatebodd (69%) yn darparu ar gyfer disgyblion ôl-16. O'u plith, mae 65 (71%) yn cynnig cyrsiau ITM ôl-16 yn fewnol ac mae 21 (23%) yn cynnig cyrsiau a gaiff eu cynnal drwy gytundeb cydweithredol ag ysgol neu goleg arall. Mae gan 6 ysgol (7%) ddisgyblion ôl-16 na chynigir unrhyw gyfleoedd iddynt astudio cwrs ITM ôl-16 ac nid oes gan 25 (29%) o'r ysgolion sy'n cynnig cyfleoedd o'r fath unrhyw

ddisgyblion yn astudio ITM ar lefel UG neu Safon Uwch. Mae hyn yn golygu nad oes gan dros draean o'r ysgolion (34%) â darpariaeth ôl-16 unrhyw ddisgyblion yn astudio pynciau ITM. Dywed yr ysgolion nad ydynt bellach yn cynnig cyrsiau ITM ôl-16 mai'r rheswm am hyn yw nad oes digon o ddisgyblion yn awyddus i astudio'r cyrsiau hyn – mewn un ysgol, mae angen 15 o ddisgyblion er mwyn cynnal cwrs. Mae niferoedd isel ar gyfer ITM ar lefel TGAU yn golygu bod y gronfa o ddisgyblion ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn rhy fach i sicrhau bod digon o ddisgyblion yn awyddus i barhau i astudio'r pwnc.

Dengys y siart isod y bu gostyngiadau pellach o ran y ddarpariaeth ITM ôl-16 mewn dim ond blwyddyn. Yn 2017, nid oedd gan 26% o'r ysgolion a oedd yn cynnig cyrsiau ITM ar lefel UG unrhyw fyfyrwr; eleni, mae'r ffigur hwnnw wedi cynyddu i 29%. Ar lefel Safon Uwch, mae'r cynnydd yng nghyfran yr ysgolion lle nad oes unrhyw fyfyrwr yn astudio ITM yn uwch: 29% yn 2018 o gymharu â 20% yn 2017. Mewn tua hanner yr ysgolion a ymatebodd, mae'r garfan yn cynhyrchu llai na 6 disgybl ar gyfer ITM, sydd wedi'u rhannu'n aml rhwng mwy nag un iaith, gan olygu bod meintiau gwirioneddol y grwpiau o bosibl yn llai byth:

*“Mae 1 disgybl yn dysgu Ffrangeg a 3 yn dysgu Almaeneg”
“3 Ffrangeg UG a 3 Lefel Uwch Sbaeneg”*

FFIGUR 17: FAINT O DDISGYBLION O'CH YSGOL SY'N ASTUDIO CYRSIAU ÔL-16 MEWN ITM AR HYN O BRYD? (FFIGURAU 2017 MEWN CROMFACHAU)



DS. Mae'r canrannau ar gyfer y ddwy flynedd yn seiliedig ar lai na 100 o ymatebion a dylid eu hystyried fel ffigurau dangosol yn unig.

Noda ymatebwyr fod trefniadau consortiwm neu bartneriaeth yn aml yn atal disgyblion:


“Mae'n rhaid iddynt deithio tua 20 milltir, mewn tacsï un ffordd, ac ar y bws adref.”

“Ni fydd yr ysgol yn cynnal cyrsiau i ddosbarthiadau â llai na 10 disgybl. Mae hyn yn golygu y caiff rhyw hanner dwsin o ddisgyblion sy'n dewis astudio Almaeneg eu gorfodi i astudio rywle arall. Mae rhai yn derbyn y cyfle hwn, ond mae eraill yn newid eu dewisiadau o ran opsiynau. O fis Medi 2018, bydd yr ysgol gyfagos sydd wedi cynnig cwrs Almaeneg ôl-16 yn rhoi'r gorau i wneud hynny.”

Dywed dwy ran o dair (56 = 65%) o ymatebwyr eleni fod y niferoedd ar gyfer ITM wedi gostwng yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Eleni, dim ond 5 (6%) o ysgolion sy'n nodi bod niferoedd wedi cynyddu, o gymharu â 15% yn 2017. Dywed y gweddill nad yw'r niferoedd wedi newid yn sylweddol.

“Ni fydd yr ysgol yn cynnal cyrsiau i ddosbarthiadau â llai na 10 disgybl. Mae hyn yn golygu y caiff rhyw hanner dwsin o ddisgyblion sy'n dewis astudio Almaeneg eu gorfodi i astudio rywle arall.”

FFIGUR 18: NEWIDIADAU A GOFNODWYD O RAN Y NIFER SY’N ASTUDIO ITM ÔL-16



Rhesymau a nodir am y gostyngiadau mewn niferoedd ôl-16

Y prif resymau y mae ysgolion yn rhoi am y gostyngiad yn y niferoedd sydd yn dysgu ieithoedd, yn nhrefn pwysigrwydd, yw:

1. Anhawster canfyddedig ITM, ar lefel TGAU ac yng Nghyfnod Allweddol 5 (22 o sylwadau):

“Mae disgyblion o’r farn bod ITM yn anodd, ac maent yn dueddol o wybod bod ffiniau graddau yn anffafriol o gymharu â’r rhan fwyaf o’r pynciau eraill. Hefyd, mae cynnwys y cwrs ar lefel TGAU bellach yn anferth, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn pryderu y gallai’r un peth ddigwydd ar lefel ôl-16.”

“Anhawster arholiadau. Gormod o bynciau i ddewis o’u plith. Nid ydynt yn gweld gwerth ieithoedd – mae pawb yn siarad Saesneg!!!”

“Mae Safon Uwch yn rhy heriol – mae’n anos cael graddau uchel, caiff yr arholiad ei farcio’n rhy gaeth.”

Nid yw’r cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd wedi llwyddo i newid y canfyddiadau hyn:

“Ystyrir bod ieithoedd yn anodd ac mae’r cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd yn atgyfnerthu’r gred hon.”

2. Nifer isel o ddisgyblion ar lefel TGAU, sy’n golygu bod y gronfa o ymgeiswyr yn rhy fach i sicrhau dosbarthiadau dichonadwy (13 o sylwadau):

“Nid oes digon yn dewis astudio ar gyfer TGAU i ddechrau.”

“Nid oes modd cynnal dosbarthiadau â llai na 15 o ddisgyblion felly mae’r disgyblion yn dewis pynciau eraill neu’n mynd i goleg/chweched dosbarth arall.”

“Y gofyniad bod yn rhaid sicrhau 10 disgybl o leiaf ar gyfer cwrs. Byddai ein niferoedd mewn Almaeneg yn 16+ oed yn debyg i’r tri degawd diwethaf ond maent wedi gostwng i sero oherwydd y gofyniad hwn.”

Mae sylwadau hefyd yn cyfeirio at broblemau mewn perthynas â disgyblion iau yn yr ysgol lle na chaiff y sgiliau a’r cymwyseddau sydd eu hangen i astudio iaith ar lefel uwch eu meithrin:

“Dim ond un wers 50 munud a gaiff y rhan fwyaf o gyfnod allweddol 3

“Mae disgyblion o’r farn bod ITM yn anodd, ac maent yn dueddol o wybod bod ffiniau graddau yn anffafriol o gymharu â’r rhan fwyaf o’r pynciau eraill.”

bob wythnos, felly mae'n amhosibl gwneud unrhyw gynnydd/ennyn diddordeb/annog disgyblion i astudio'r pwnc."

"Ymddygiad gwael. Nid oes gan ddisgyblion oddefgarwch tuag at ddiwylliannau eraill. Ethege waith wael ymhlith llawer o ddisgyblion."

"Yn CA3, mae gennym ddosbarthiadau â mwy na 35 o ddisgyblion o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol; mae rhai o'r problemau cyllidebol hyn yn ymwneud â'r llywodraeth ac mae rhai yn ymwneud â blaenoriaethau'r ysgol. Rhoddir llawer o sylw i Saesneg a Mathemateg a Gwyddoniaeth sy'n golygu bod amodau a chyfleoedd addysgu yn wahanol iawn i'r pynciau nad ydynt yn rhai craidd. O ganlyniad, lledaenir neges i'r disgyblion o ran pa bynciau sy'n bwysig a lle y ceir amgylchedd dysgu gwell - dosbarthiadau llai o faint, mwy nag un athro yn y dosbarth, tiwtora ychwanegol, athrawon yn cael eu talu i wneud gwaith marcio ychwanegol ar gyfer y pwnc yn y pynciau craidd, 18 o aelodau o staff yn hytrach na 3 mewn pynciau eraill felly gellir rhoi mwy o gymorth i'r disgyblion, y cyfle i ailsefyll arholiadau yn y pynciau craidd. Mae system addysg sy'n seiliedig ar ddata yn cael effaith andwyol ar bynciau opsiwn nad ydynt yn DPAAu."

3. Canfyddiad bod ieithoedd yn llai pwysig neu'n llai gwerthfawr na phynciau STEM (13 o sylwadau):

"Disgyblion yn dilyn y llwybr 'gwyddoniaeth'. Diffyg defnyddioldeb canfyddedig y pwnc."

"Mae dysgwyr o'r farn y bydd gormod o waith caled ac na fydd ei angen arnynt yn y brifysgol neu fel rhan o'u gyrfa."

Noda athrawon fod Bagloriaeth Cymru wedi gwaethygu'r sefyllfa hon:

"Yn y gorffennol, byddai'r disgyblion yn dewis ieithoedd fel y 4ydd pwnc ond o ganlyniad i'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r Bac, nid yw hyn yn digwydd bellach. Mae llawer o ddisgyblion yn cael y neges bod astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth yn arwain at yrfa lwyddiannus a chyflog da."

Mae'r pump ysgol lle mae'r niferoedd ar gyfer ITM wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn rhoi rhesymau gwahanol am hyn. Mae un wedi dod yn ganolfan ragoriaeth, mae un arall yn nodi llwyddiant ar lefel TGAU ac mae trydedd yn nodi mai'r rheswm yw ei bod wedi rhoi'r gorau i anfon disgyblion i ysgol arall i astudio Ffrangeg. Mae pedwaredd ysgol yn nodi mai 'carfan gryfach' sy'n gyfrifol am y cynnydd ac ni all y pumed nodi unrhyw reswm penodol.

Pwyntiau allweddol

- Bu gostyngiad amlwg, mewn cyfnod o ddim ond blwyddyn, yn nifer y disgyblion sy'n dysgu ieithoedd tramor modern ôl-16. Bellach, nid oes gan dros draean yr ysgolion â darpariaeth ôl-16 unrhyw ddisgyblion ar gyfer ITM. Mae cyfran yr ysgolion heb unrhyw grwpiau ITM yn y chweched dosbarth wedi cynyddu i 29% ac mae nifer yr ysgolion lle mae llai na 6 disgybl yn astudio ITM ôl-16 wedi gostwng.
- Mae niferoedd isel ar gyfer ITM ar lefel TGAU yn golygu bod y gronfa o ddisgyblion ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn rhy fach i sicrhau bod digon o ddisgyblion yn awyddus i barhau i astudio'r pwnc.
- Y canfyddiad bod ITM yn anos na phynciau eraill.
- Mae'r gwerth isel a roddir i ITM o gymharu â phynciau STEM, a'r gostyngiad mewn dewisiadau pwnc er mwyn galluogi disgyblion i astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru oll yn ffactorau sy'n cyfrannu at y gostyngiad.

"Yn y gorffennol, byddai'r disgyblion yn dewis ieithoedd fel y 4ydd pwnc ond o ganlyniad i'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r Bac, nid yw hyn yn digwydd bellach. Mae llawer o ddisgyblion yn cael y neges bod astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth yn arwain at yrfa lwyddiannus a chyflog da."


Staff addysgu

Pa mor hawdd ydyw i ysgolion recriwtio a chadw athrawon ITM safonol?

Nid oes gan tua 8% o ysgolion garfan staff lawn ar gyfer ITM – cyfran sy'n gymharol debyg i 2017, er bod y cwestiwn wedi'i eirio'n wahanol yn flaenorol. Mae tua chwarter ysgolion wedi cael problemau wrth recriwtio athrawon ITM a dywed tua 14% eu bod wedi ei chael hi'n anodd cadw staff o ansawdd uchel.

Mae tua chwarter ysgolion wedi cael problemau wrth recriwtio athrawon ITM a dywed tua 14% eu bod wedi ei chael hi'n anodd cadw staff o ansawdd uchel.

FFIGUR 19: PA MOR HAWDD YDYW I YSGOLION RECRIWTIO A CHADW ATHRAWON ITM SAFONOL?



O ystyried y gostyngiad mewn niferoedd ar gyfer ITM ar lefel TGAU ac ôl-16, nid yw'n syndod bod ysgolion yng Nghymru, er bod rhai ohonynt yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon ITM, yn cael llai o anawsterau nag ysgolion yn Lloegr, lle mae nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd yn uwch ac y mae disgwyl i'r niferoedd hynny gynyddu.¹²

Nid oedd unrhyw gydbertnyniadau sylweddol ag unrhyw nodweddion ysgol o ran yr ysgolion sy'n fwyaf tebygol o ddirodded anawsterau recriwtio. Ymddengys fod yr anawsterau a nodir yn cael effaith gymharol gyfartal ar bob math o ysgol.

¹²Teresa Tinsley a Neela Dolezal, *Language Trends 2018. Language teaching in primary and secondary schools in England*, British Council, 2018, tud. 8: <https://www.britishcouncil.org/research/language-trends-2018>


I ba raddau y mae athrawon yn cymryd rhan mewn DPP ar gyfer ITM?

Mae'r mwyafrif helaeth o'r ysgolion a ymatebodd (95%) yn cymryd rhan mewn DPP ar gyfer ITM a ddarperir gan eu Consortiwm Rhanbarthol, a noda 44% eu bod yn gwneud hynny'n rheolaidd. Unwaith eto, mae'n bosibl bod y gyfran uchel yn adlewyrchu tuedd o ran y rheini a ymatebodd i'r arolwg. Mae cyfranogiad mewn DPP a ddarperir gan gyrff eraill megis byrddau arholi hefyd yn uchel iawn (89%), er bod hyn yn fwy tebygol o fod yn achlysurol nag yn rheolaidd. Caiff ychydig dros hanner yr ysgolion (53%) gyfleoedd i weithio ar faterion iaith gydag adrannau eraill yn yr ysgolion, er mai dim ond yn achlysurol y mae hyn ar y cyfan. Mae cyfran fawr hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhwydweithio gydag ysgolion eraill (86%) ac mae cyfran debyg (87%) yn cymryd rhan mewn DPP nad yw'n bwnc-benodol a drefnir gan yr ysgol (nis dangosir). Mae cyfranogiad mewn DPP ar-lein ar gyfer ITM yn isel iawn, fel y gellid disgwyl o bosibl o ystyried y lefel uchel o gyfranogiad a gofnodir mewn gweithgareddau wyneb-yn-wyneb.

Er bod arolwg 2017 wedi ystyried cyfranogiad mewn DPP mewn ffordd wahanol, felly nid oes modd cymharu'r ymatebion yn uniongyrchol, ymddengys fod ysgolion yn cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau DPP nag o'r blaen, fel y gellid ei ddisgwyl o bosibl wrth i'r Consortia Rhanbarthol ddatblygu eu darpariaeth.

Caiff ychydig dros hanner yr ysgolion (53%) gyfleoedd i weithio ar faterion iaith gydag adrannau eraill yn yr ysgolion, er mai dim ond yn achlysurol y mae hyn ar y cyfan.

FFIGUR 20: I BA RADDAU Y MAE ATHRAWON YN CYMRYD RHAN MEWN DPP AR GYFER ITM?



Pwyntiau allweddol


- Mae'r Consortia Rhanbarthol yn cyrraedd cyfran uchel o ysgolion â'u darpariaeth DPP.
- Noda ymatebwyr lefel gymharol uchel o gyfranogiad mewn amrywiol fathau o DPP wyneb-yn-wyneb ar gyfer ITM.

Cysylltiadau ag ysgolion cynradd

I ba raddau y mae ysgolion uwchradd yn cysylltu ag ysgolion cynradd lleol ynghylch dysgu ieithoedd newydd?

Mae tua hanner (48%) o ysgolion uwchradd yn nodi rhywfaint o gyswllt ag o leiaf un ysgol gynradd lleol ynghylch dysgu ieithoedd newydd. Nid yw'r gyfran hon wedi newid yn ystod y tair blynedd diwethaf y gofynnwyd yr un cwestiwn. Fodd bynnag, dim ond tua un o bob pump (21%) sy'n disgrifio'r cysylltiadau hyn fel cysylltiadau 'da' neu 'reolaidd', a dywed 28% ohonynt mai 'cyfyngedig' yw'r cysylltiadau hyn.

FFIGUR 21: I BA RADDAU Y MAE YSGOLION UWCHRADD YN CYSYLLTU AG YSGOLION CYNRADD LLEOL YNGHYLCH DYSGU IEITHOEDD NEWYDD?



Pa fath o baratoad y mae ysgolion cynradd yn ei ddarparu ar gyfer dysgu ITM mewn ysgolion uwchradd?

Mae ychydig yn llai na dwy ran o dair o ysgolion uwchradd o'r farn bod eu prif ysgol fwydo gynradd yn darparu rhywfaint o baratoad ar gyfer dysgu ITM mewn ysgol uwchradd. Gan gyfuno'r ymatebion, noda traean o ysgolion (31%) fod eu prif ysgol fwydo gynradd yn cynnig rhywfaint o amlygiad i iaith dramor fodern a noda 20 y cant eu bod yn eu paratoi drwy Gymraeg neu Saesneg. Mae mwy na thraean o ysgolion uwchradd (36%) o'r farn nad yw eu prif ysgol fwydo gynradd yn darparu unrhyw baratoad o gwbl ar gyfer dysgu ITM.

Mae ychydig yn llai na dwy ran o dair o ysgolion uwchradd o'r farn bod eu prif ysgol fwydo gynradd yn darparu rhywfaint o baratoad ar gyfer dysgu ITM mewn ysgol uwchradd.




Y mathau o baratoad ar gyfer ITM a ddarperir gan ysgolion bwydo cynradd Cyfunol¹³

Rhywfaint o amlygiad i'r iaith newydd	Drwy ddarparu cyflwyniad i ddiwylliant a seiniau'r iaith drwy ganeuon ac ati	16%	31%
	Drwy fodiwl pontio a gyflwynir ar y cyd â ni	15%	
	Rhywfaint o waith addysgu systemataidd o iaith newydd yn ystod blynyddoedd olaf yr ysgol gynradd	12%	
	Drwy addysgu ITM o ddechrau'r ysgol gynradd	4%	
Paratoi drwy Gymraeg a/neu Saesneg	Drwy addysgu sgiliau dysgu iaith drwy Gymraeg/Saesneg	18%	20%
	Drwy addysgu strwythurau iaith yn ffurfiol yn Gymraeg neu'n Saesneg	11%	
Dulliau gweithredu amlieithog	Drwy amlygiad i amrywiaeth o ieithoedd a diwyllannau	13%	
Dim	Dim un o'r uchod	36%	

Mae'r canfyddiadau hyn, a ddangosir ar ffurf ddaearyddol isod, yn nodi rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â rhoi'r maes cwricwlwm newydd leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ar waith a sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru.

FFIGUR 22: Y MATHAU O BARATOAD AR GYFER DYSGU ITM A DDARPERIR GAN YSGOLION BWYDO CYNRADD




Beth fyddai'r ffordd orau o ddatblygu hyn?

Pan ofynnwyd iddynt pa ddatblygiadau a fyddai'n paratoi disgyblion orau ar gyfer dysgu ITM yn yr ysgol uwchradd, roedd yr ymatebwyr o blaid mesurau a fyddai'n canolbwyntio'n benodol ar ITM yn hytrach na defnyddio Cymraeg a Saesneg. Roedd bron i hanner (46%) o blaid cyflwyno ITM yn raddol o ddechrau ysgolion cynradd ac roedd cefnogaeth hefyd i'r syniad o gyflwyno modiwlau pontio ac amlygiad i iaith drwy gyflwyniadau 'llai manwl' a phrofiadau amlieithog amrywiol.

Roedd bron i hanner (46%) o blaid cyflwyno ITM yn raddol o ddechrau ysgolion cynradd ac roedd cefnogaeth hefyd i'r syniad o gyflwyno modiwlau pontio ac amlygiad i iaith drwy gyflwyniadau 'llai manwl' a phrofiadau amlieithog amrywiol.

¹³Heb ystyried yr ysgolion ble mae mwy nag un o'r gweithgareddau hyn yn cael eu darparu

FIGURE 23: OPSIYNAU Y GELLID EU DATBLYGU YMHELLACH, YM MARN YMATEBWYR, ER MWYN PARATOI DISGYBLION YN WELL AR GYFER ADDYSGU ITM YN YR YSGOL UWCHRADD (CANIAITEIR MWY NAG UN YMATEB)



O blith y 12 o sylwadau ag awgrymiadau 'eraill' ar gyfer y cwestiwn hwn, cyfeiriodd chwech ohonynt at bwysigrwydd defnyddio athrawon ITM cymwys mewn ysgolion cynradd. Mae rhai enghreifftiau o'r sylwadau hyn fel a ganlyn:

"Dylid cyflwyno modiwlau pontio mewn ffordd fwy systematig h.y. drwy ariannu ysgolion uwchradd i ryddhau eu hathrawon ITM i addysgu disgyblion o ysgolion cynradd." (Nododd yr ymatebydd hwn ei fod yn addysgu tair gwrs bob pythefnos i Flwyddyn 6 drwy ewyllys da'r Pennaeth sy'n caniatáu iddo wneud hynny fel rhan o'i amserlen arferol).

"Fel arfer, nid yw athrawon cynradd yn arbenigwyr ITM felly gall lesteirio'r broses os byddant yn addysgu'r disgyblion i ynganu'n anghywir ac ati. Mae angen athro ITM i fynd i'r ysgolion cynradd unwaith yr wythnos er mwyn darparu gwarsi."

"Os caiff ITM eu cyflwyno mewn ysgolion cynradd, rhaid sicrhau mai arbenigwr fydd yn gwneud hynny."

"Fel arfer, nid yw athrawon cynradd yn arbenigwyr ITM felly gall lesteirio'r broses os byddant yn addysgu'r disgyblion i ynganu'n anghywir ac ati. Mae angen athro ITM i fynd i'r ysgolion cynradd unwaith yr wythnos er mwyn darparu gwarsi."

Pwyntiau allweddol


- Mae gan tua hanner (48%) yr ysgolion uwchradd ryw fath o gyswllt â'u prif ysgol fwydo gynradd mewn perthynas ag ITM, er mai cyfyngedig yw natur y cyswllt hwn fel arfer.
- Mae tua thraean o'r farn nad yw eu prif ysgol fwydo gynradd yn darparu unrhyw baratoad o gwbl ar gyfer dysgu ITM ar hyn o bryd.
- Mae ymatebwyr o blaid datblygu dulliau gweithredu yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n canolbwyntio'n benodol ar ITM yn hytrach nag ar sgiliau dysgu iaith cyffredinol drwy Gymraeg a/neu Saesneg.

ITM ac addysgu Cymraeg

I ba raddau y mae adrannau ITM yn gweithio gyda chydweithwyr sy'n addysgu Cymraeg a Saesneg?

Mae rhwng chwarter a thraean (29%) o adrannau ITM yn gweithio'n 'aml' neu'n 'aml iawn' â chydweithwyr sy'n addysgu Cymraeg a Saesneg, mae cyfran debyg (27%) yn gwneud hynny'n 'anaml iawn' neu byth, ac mae 14% yn nodi mai 'anaml' y maent yn gwneud hynny.

FFIGUR 24: AMLDER CYDWEITHIO RHWNG ADRANNAU ITM AC ATHRAWON CYMRAEG A/NEU SAESNEG



Darparodd 39 o ysgolion ragor o fanylion am y ffordd y mae adrannau ITM, Cymraeg a Saesneg yn cydweithredu â'i gilydd. Y math mwyaf poblogaidd o gydweithredu (22 o ymatebion) oedd rhannu arfer da ac adnoddau, sy'n cynnwys enghreifftiau o ysgolion sy'n cydweithredu ar gynlluniau gwaith a dulliau gweithredu addysgegol:

“Rydym wedi ceisio edrych ar ein cynlluniau gwaith er mwyn gweld sut y gallwn gefnogi/ategu ein gilydd. Rwyf wedi datblygu llyfrynnau “Hwyl gydag ieithoedd” ar gyfer disgyblion Ysgol Ganol (B5-B8) er mwyn ategu llythrennedd amlieithog.”

“Fel Cyfadran Ieithoedd, rydym yn gweithio'n agos â'r Adran Gymraeg ar unrhyw faterion sy'n ymwneud ag addysgu, dysgu ac asesu.”

Nododd 12 o ymatebwyr fod ITM a Chymraeg yn gweithredu ar y cyd fel un gyfadran yn eu hysgol nhw. Soniodd pedair ysgol arall fod ganddynt adrannau ITM a Chymraeg ar wahân, ond eu bod yn cynnal cyfarfodydd ar y cyd rhwng y ddwy adran yn rheolaidd (ni soniwyd yn benodol am Adrannau Saesneg yn y sylwadau hyn). Nodwyd rhai enghreifftiau ymarferol o hyn fel a ganlyn:

“Cyfarfodydd ar y cyd rhwng y ddwy adran i drafod materion fel cynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn ein Cynlluniau Gwaith yng Nghyfnod Allweddol 3.”

“Caiff ein holl gyfarfodydd eu cynnal ar y cyd gan fod y rhan fwyaf o'r adran ITM hefyd yn addysgu Cymraeg fel ail iaith. Rydym yn rhannu'r un nodau ac yn cydweithio wrth gynllunio.”

Rhoddodd ymatebwyr yr enghreifftiau canlynol o'r buddiannau a oedd yn deillio o gydweithredu rhwng adrannau ITM, Cymraeg a Saesneg:

“Mae gan bob ystafell ddsbarth iaith arddangosfa “GOLDMINE” o dermau a geiriau allweddol i'r disgyblion eu cynnwys wrth ymgymryd ag ymarferion ysgrifenedig a llafar. Bellach mae hyn ar waith ar draws pob adran iaith, gan arwain at welliant mewn lefelau ysgrifenedig mewn Ffrangeg. Alla i ddim dweud ar ran Cymraeg na Saesneg.”

“Rydym yn cydblethu cynlluniau gwaith er mwyn sicrhau na fydd y disgyblion yn astudio'r un testunau pwnc ar yr un pryd.”

“Mae gan bob ystafell ddsbarth iaith arddangosfa “GOLDMINE” o dermau a geiriau allweddol i'r disgyblion eu cynnwys wrth ymgymryd ag ymarferion ysgrifenedig a llafar. Bellach mae hyn ar waith ar draws pob adran iaith, gan arwain at welliant mewn lefelau ysgrifenedig mewn Ffrangeg. Alla i ddim dweud ar ran Cymraeg na Saesneg.”

“Gall rai disgyblion weld y cysylltiadau rhwng Saesneg/Sbaeneg/Cymraeg a gallant edrych am gytrasau.”

“Mae strategaeth gyffredin (gramadegol yn bennaf, ond gan gynnwys strategaethau addysgu hefyd) rhwng ITM a Chymraeg wedi cael effaith sylweddol. Mae'r agweddau gramadegol rydym ni fel staff ITM yn eu haddysgu fel arfer yn helpu'r disgyblion gyda'u Saesneg, yn hytrach na'r ffordd arall. Er gwaethaf datblygiadau diweddar, mae staff ITM yn dal i addysgu gramadeg yn llawer mwy ac yn llawer amlach ac yn llawer manylach nag athrawon Saesneg.”

Yn ystadegol, roedd ysgolion â disgyblion rhwng 11 ac 16 oed (er bod y sampl hon yn llawer llai) yn sylweddol mwy tebygol o nodi cydweithrediad rhwng eu hadran ITM a chydweithwyr sy'n addysgu Cymraeg a/neu Saesneg, yn wahanol i ysgolion â disgyblion rhwng 11 a 19 oed. Er enghraifft, dim ond 9% o ysgolion â disgyblion rhwng 11 ac 16 oed a nododd mai 'yn anaml', 'yn anaml iawn' neu 'byth' yr oeddent yn cydweithredu, ond mae'r ganran hon yn cynyddu i 52% mewn ysgolion â disgyblion rhwng 11 ac 19 oed. Mae'r rhesymau am y gydberthynas hon yn aneglur, ond gall fod bodolaeth Chweched Dosbarth yn rhoi mwy o bwysau ar adrannau unigol i ganolbwyntio ar eu pynciau eu hunain, neu yn syml gall hyn leihau'r amser sydd ar gael i gydweithredu.

Pa rwystrau sy'n atal athrawon ITM rhag cydweithredu mwy ym maes leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu?

Ym marn ymatebwyr, pwysau amser yw'r rhwystr mwyaf sy'n atal cydweithredu er mwyn datblygu maes leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: 'Mae'n anodd iawn cael amser oddi ar yr amserlen er mwyn cydweithio', 'rwyf wedi gweld syniadau ond byddai angen LLAWER o waith paratoi ac mae athrawon yn rhy brysur', 'fi yw'r unig athro Ffrangeg yn yr ysgol ac rwy'n gweithio ar gontract 0.6 felly ni fu unrhyw fenter na chymhelliant i weithio gydag eraill'. Noda rhai ymatebwyr mai 'perthynas tlawd' yw ITM o gymharu â Chymraeg neu Saesneg ac, er y byddai o fudd i ni gydweithio'n agosach, 'ni fyddai'r ffaith eu bod yn bynciau gorfodol ond mai pwnc dewisol ydym ni yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis ein pwnc'.

Mae athrawon yn ymwybodol bod gan wahanol feysydd pwnc wahanol flaenoriaethau e.e.

“rydym wedi datblygu deunyddiau a gweithdrefnau llythrennedd triphlyg ardderchog – dim ond yr adran ITM sy'n eu defnyddio – mae gan adrannau eraill agwedd negyddol tuag at ramadeg”.

Fodd bynnag, noda rhai ysgolion o bosibl y bydd mwy o gyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol:

“Mae'r adran Ffrangeg yn mynd i symud i gyfadran Saesneg, Llythrennedd a Ffrangeg ym mis Medi nesaf felly gobeithio y bydd mwy o gydweithredu”


“Mae ein hysgol yn newid i Gwricwlwm newydd i Gymru felly efallai y bydd mwy o gyfleoedd bryd hynny”

“Rydym yn cyflwyno prosiect cydweithredol ar gyfer tymor yr haf eleni, ond dyma'r tro cyntaf rydym wedi cydweithio.”

Yn ystadegol, roedd ysgolion â disgyblion rhwng 11 ac 16 oed (er bod y sampl hon yn llawer llai) yn sylweddol mwy tebygol o nodi cydweithrediad rhwng eu hadran ITM a chydweithwyr sy'n addysgu Cymraeg a/neu Saesneg, yn wahanol i ysgolion â disgyblion rhwng 11 a 19 oed.

“Rydym wedi datblygu deunyddiau a gweithdrefnau llythrennedd triphlyg ardderchog – dim ond yr adran ITM sy'n eu defnyddio – mae gan adrannau eraill agwedd negyddol tuag at ramadeg”.

FFIGUR 25: RHWYSTRAU SY’N ATAL MWY O GYDWEITHREDU YM MAES IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU



Pwyntiau allweddol


- Mae amrywiaeth fawr o ran arfer mewn perthynas â’r graddau o gydweithredu a’r mathau o gydweithredu ymhlith cydweithwyr sy’n gyfrifol am y maes cwricwlwm newydd leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, gyda rhai enghreiffitiau da o gydweithio agos.
- Mae rhai ysgolion yn dechrau cydweithredu mwy, er mwyn paratoi ar gyfer Cwricwlwm Newydd i Gymru.
- Pwysau amser yw’r rhwystr mwyaf sy’n atal mwy o gydweithredu.

Mae tua phedair o bob pump ysgol (79%) yn cynnal rhyw fath o daith ysgol dramor: dyma’r math mwyaf cyffredin o brofiad rhyngwladol a gynigir o bell ffordd, er na ofynnwyd i’r athrawon faint o ddisgyblion all gymryd rhan.

Ymgysylltiad rhyngwladol

Mae tua phedair o bob pump ysgol (79%) yn cynnal rhyw fath o daith ysgol dramor: dyma’r math mwyaf cyffredin o brofiad rhyngwladol a gynigir o bell ffordd, er na ofynnwyd i’r athrawon faint o ddisgyblion all gymryd rhan. Mae gan chwarter ysgolion Cymru (25%) ysgol bartner dramor, mae 12% yn trefnu teithiau cyfnewid i ddisgyblion, ac mae nifer fach iawn, dim ond 3%, yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn profiad gwaith dramor. Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y cyfrannau hyn ers arolwg 2017.

FFIGUR 26: CYFLEOEDD RHYNGWLADOL A GYNIGIR GAN YSGOLION 2018



Noda athrawon pan fo adrannau yn fach iawn ei bod yn anodd dod o hyd i amser i drefnu a chynnal cysylltiadau rhyngwladol:

“Rwy’n dygnu arni ar hyn o bryd i baratoi cwrs TGAU, UG a Safon Uwch Ffrangeg newydd sbon ar fy mhen fy hun, fel y mae llawer o athrawon Ffrangeg a phenaethiaid adran eraill.”

I eraill, mae cyllid yn rhwystr:

“Roedd rhaglen gyfnewid a oedd yn cynnig profiad gwaith yn yr Almaen ar waith gennym am bron i 20 mlynedd, ond bu’n rhaid i ni roi’r gorau iddi yn 2011 gan na allai’r ysgol bellach fforddio costau’r athrawon cyflenwi angenrheidiol.”

Fodd bynnag, ceir tystiolaeth bod cyllid Erasmus yr UE yn cael ei ddefnyddio i alluogi prosiectau rhyngwladol a DPP i athrawon:

“Prosiect Erasmus cryf, prosiect ePal gyda blwyddyn 9 a blwyddyn 11.”

“Mae gennym gysylltiadau ag ysgolion yng Ngwlad Pwyl a Sbaen drwy Erasmus ac rydym wedi ymgymryd â phrosiectau gyda’r ysgolion hynny.”

“Defnyddiais gyllid Erasmus+ i astudio Sbaeneg ym Madrid yr haf diwethaf, er mwyn gwella fy sgiliau iaith.”

Mae ysgolion â mwy o ddisgyblion sydd wedi’u cofnodi fel disgyblion sy’n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn llai tebygol o ddarparu profiadau rhyngwladol mewn perthynas ag ITM, yn arbennig teithiau ysgol a phrofiad gwaith dramor. O blith y 15% o ysgolion a ddywedodd nad ydynt yn darparu unrhyw rai o’r cyfleoedd a restrir, canran gyfartalog y disgyblion sy’n cael Prydau Ysgol am Ddim yw 18%. Ar gyfer ysgolion sy’n cynnig rhyw fath o brofiad rhyngwladol, canran gyfartalog y disgyblion sy’n cael Prydau Ysgol am Ddim yw 15%. Mae’r gwahaniaeth hwn, er yn fach, yn bwysig yn ystadegol.

Pwyntiau allweddol

- Mae disgyblion sy’n mynd i’r ysgol mewn ardaloedd lle ceir lefelau uwch o anfantais economaidd yn llai tebygol o gael cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn teithiau ysgol dramor.
- Prin yw’r ysgolion sy’n trefnu teithiau cyfnewid i ddisgyblion dramor a phrin iawn sy’n cynnig profiad gwaith mewn gwlad dramor.

Effaith Brexit

Noda athrawon mai effaith fwyaf sylweddol proses Brexit hyd yn hyn fu’r effaith ar agweddau tuag at ITM ymhlith rhieni a disgyblion. Noda tua thraean yr ysgolion (32%) ei bod yn cael effaith negyddol ar agweddau rhieni tuag at ITM a dywed 29% ei bod yn cael effaith negyddol ar agweddau disgyblion. Yn gyffredinol, noda 37% o ysgolion gynnydd mewn agweddau negyddol tuag at ITM mewn ysgolion ers Brexit, naill ai gan ddisgyblion neu rieni.¹⁴


Ymhlith y meysydd eraill sy’n peri pryder mewn perthynas â Brexit mae’r rhagolygon o ran recriwtio a chadw athrawon ITM ac ymgysylltiad rhyngwladol yn y dyfodol ac mae rhai ysgolion eisoes yn nodi effeithiau negyddol yn y meysydd hyn.

Teachers comment that where departments are very small, it is difficult to find time to organise and maintain international links

Noda athrawon mai effaith fwyaf sylweddol proses Brexit hyd yn hyn fu’r effaith ar agweddau tuag at ITM ymhlith rhieni a disgyblion.

¹⁴Mae hyn ychydig yn uwch na’r ganran o 34% a gofnodwyd mewn ymateb i’r un cwestiwn yn yr arolwg Tueddiadau Ieithoedd yn Lloegr 2018.

FFIGUR 27: EFAITH PENDERFYNIAD Y DU I ADAEL YR UNDEB EWROPEAIDD AR ADDYSGU ITM MEWN YSGOLION



Mae ysgolion sy'n nodi bod y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn cael effaith negyddol, naill ai ar gymhelliant disgyblion neu ar agweddau rhieni tuag at ITM, yn fwy tebygol o fod mewn ardaloedd trefol, ond nid yw'r effaith hon yn bwysig yn ystadegol. Mae gwahaniaethau sy'n bwysig yn ystadegol rhwng y pedwar prif ranbarth, gyda'r canrannau canlynol o ysgolion ym mhob consortia yn nodi agweddau negyddol gan fyfyrwyr a/neu rieni:

De-ddwyrain Cymru	56%
De-orllewin a Chanolbarth Cymru	44%
Gogledd Cymru	31%
Canol De Cymru	23%

Pwyntiau allweddol

- Noda mwy na thraean o ysgolion (37%) fod proses Brexit yn cael effaith negyddol ar agweddau tuag at astudio ITM.
- Mae'r effaith hon yn fwyaf sylweddol ymhlith ysgolion yn Ne-ddwyrain Cymru.

Noda mwy na thraean o ysgolion (37%) fod proses Brexit yn cael effaith negyddol ar agweddau tuag at astudio ITM. Mae'r effaith hon yn fwyaf sylweddol ymhlith ysgolion yn Ne-ddwyrain Cymru.

Materion sy'n peri pryder

Ar ddiwedd ein harolwg, rydym yn rhoi cyfle i ymatebwyr roi sylwadau ar unrhyw agwedd ar addysgu ITM mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru lle yr hoffent ddweud rhywbeth pellach am ieithoedd yn eu hysgol neu'n genedlaethol nad ymdriniwyd ag ef yn ein cwestiynau. Ymatebodd 52 o bobl i'r cwestiwn hwn. O blith y sylwadau hyn, roedd y prif themâu, yn nhrefn eu pwysigrwydd, fel a ganlyn:

1. Anhawster canfyddedig arholiadau ITM, a chanlyniadau hyn o ran nifer y disgyblion sy'n astudio iaith a chydaddoldeb mynediad (17 o sylwadau):

"Mae disgwyliadau'r cymhwyster TGAU yn dylanwadu ar benderfyniad llawer o fyfyrwyr cyffredin i beidio â'i ddewis."

"Rwy'n pryderu mai dim ond y disgyblion mwyaf galluog sy'n cael cyfle i ddewis astudio iaith hyd at lefel UG/Safon Uwch. Ni roddir cyfleoedd i'r disgyblion llai galluog astudio'r pwnc. Mae lefel y gwaith cyfieithu yn codi ofn hyd yn oed ar yr athrawon ac mae ganddyn nhw radd yn yr iaith. Does dim gwerth gwario arian yn hyrwyddo'r pwnc os mai dim ond y disgyblion gorau all astudio'r cwrs."

2. Gostyngiadau mewn oriau addysgu neu gyfyngiadau eraill o ran y ddarpariaeth, megis argaeledd cyrsiau (13 o sylwadau):

"Mae diffyg amser addysgu digonol yn CA3 yn broblem wirioneddol. Gan mai dim ond tair awr bob pythefnos a neilltuir i'r pwnc, mae'n anodd sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd y safonau sydd eu hangen i lwyddo yn y fanyleb TGAU ITM newydd. Mae'r cwricwlwm yn orlawn yn CA3 ac mae mwy o amser nag erioed o'r blaen yn cael ei neilltuo i wersi Mathemateg, Saesneg, Rhifedd a Llythrennedd. Dwi'n ofni na chaiff hyn ei ddatrys yn fuan."

"Rydym yn cyflwyno Sbaeneg ym Mlwyddyn 9 ond mae'n rhaid i ni ei addysgu ar ôl ysgol ac yn ystod amser cinio er mwyn sicrhau y gall disgyblion astudio ar gyfer cymhwyster TGAU yn CA4."

"Maent newydd gael gwared ar y cymhwyster Almaeneg Safon Uwch a bellach nid oes cyfle i astudio mwy nag un ITM yn yr ysgol."

3. Statws isel ITM ymhlith disgyblion a/neu'r gymuned leol, sy'n arwain at sefyllfa lle na chaiff y pwnc ei werthfawrogi (12 o sylwadau):

"Mae agwedd cyffredinol disgyblion tuag at ITM yn negyddol iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod ieithoedd yn anodd ac mae llawer o'r farn nad oes diben iddynt."

"Rhoddir blaenoriaeth i Gymraeg i'r graddau ei bod yn anodd cymell myfyrwyr nad oes ganddynt unrhyw ddi-ddordeb mewn ITM gartref."

Yn gysylltiedig â'r themâu hyn, er na chyfeiriwyd atynt mor aml, roedd y canlynol:

- Ffocws uwch reolwyr ar y pynciau craidd ar draul ITM:

"Mae fy Mhennaeth wedi cyfaddef yn ddigon agored i'r adran nad yw mewn gwirionedd yn credu mewn ITM!!"

"Mae diffyg amser addysgu digonol yn CA3 yn broblem wirioneddol. Gan mai dim ond tair awr bob pythefnos a neilltuir i'r pwnc, mae'n anodd sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd y safonau sydd eu hangen i lwyddo yn y fanyleb TGAU ITM newydd. Mae'r cwricwlwm yn orlawn yn CA3 ac mae mwy o amser nag erioed o'r blaen yn cael ei neilltuo i wersi Mathemateg, Saesneg, Rhifedd a Llythrennedd. Dwi'n ofni na chaiff hyn ei ddatrys yn fuan."

“Mae'r UDA yn canolbwyntio ar y pynciau craidd felly rydym yn colli amser addysgu yn CA3 i'r pynciau craidd”.

- Effaith Cymraeg fel pwnc gorfodol yng Nghyfnod Allweddol 4 ar ITM:

“Er y byddai'r mwyafrif yn hoffi astudio ITM ar lefel TGAU, mae effaith TGAU cwrs llawn gorfodol yn dylanwadu ar eu penderfyniad. Byddai ailgyflwyno TGAU Cymraeg cwrs byr (ond gorfodol) yn cael effaith ffafriol ar y nifer sy'n astudio ITM. Mae Cymru yn dod yn wlad gynyddol ynysol ac ynysig yn ieithyddol.”

Mae canfyddiad bod y fanyleb TGAU ar gyfer Cymraeg yn haws na'r fanyleb ar gyfer ITM:

“Mae'n anodd iawn hyrwyddo ITM am amrywiaeth o resymau. Mae'r ffaith bod Cymraeg yn orfodol a bod gan y pwnc fanyleb arholiad llawer haws nag ITM yn ffactor [...] nid yw'r Gymraeg yn iaith fyd-eang ac er ein bod yn deall pwysigrwydd addysgu a chefnogi diwylliant y wlad, mae angen i ni hefyd ystyried y gystadleuaeth y bydd ein disgyblion yn ei hwynebu.”

- Diffyg cyfatebiaeth rhwng gwaith cadarnhaol Dyfodol Byd-eang a diwygiadau diweddar i arholiadau a'r cwricwlwm yr ystyrir eu bod yn tansellio ei nodau:

“Teimlaf hyd nes y bydd gofynion y cwricwlwm yn ategu nod Strategaeth Dyfodol Byd-eang, na fydd yn arwain mewn gwirionedd at unrhyw welliant o ran nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc, er gwaethaf ymdrechion ardderchog y consortiwm rhanbarthol.”

“Er bod Dyfodol Byd-eang yn llawn ewyllys da, nid yw'n gweithredu mewn unrhyw ffordd bendant i ymdrin â'r sefyllfa, ac o ganlyniad, ni chaiff fawr effaith, os o gwbl, ar y broblem gyffredinol. Mae cyflwyno'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd, sy'n eithriadol o anodd, yng nghanol y cynllun Dyfodol Byd-eang yn brawf pellach nad oes dealltwriaeth ynghylch craidd y mater.”

“Er gwaethaf Dyfodol Byd-eang, mae llawer o ysgolion yn rhoi'r gorau i gynnig ITM fel pwnc yn CA4 a CA5 oherwydd niferoedd isel. Mae'r penderfyniad i gyflwyno Cymraeg fel pwnc gorfodol wedi cael effaith negyddol ar nifer y disgyblion sy'n astudio ITM”.

Pwyntiau allweddol

- Mae cyflwyno'r cyrsiau TGAU a Safon uwch newydd wedi atgyfnerthu'r canfyddiad bod ITM yn bwnc anodd sydd ond yn addas ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog.
- Mae llawer o athrawon ITM o'r farn eu bod yn gweithio ar gyrion y cwricwlwm ac nad yw uwch rheolwyr yn cefnogi ymdrechion i hyrwyddo'r pwnc.
- Mae rhai o'r farn bod Dyfodol Byd-eang yn cael ei danseilio gan newidiadau polisi mwy sylfaenol ym myd addysg.

“Er gwaethaf Dyfodol Byd-eang, mae llawer o ysgolion yn rhoi'r gorau i gynnig ITM fel pwnc yn CA4 a CA5 oherwydd niferoedd isel. Mae'r penderfyniad i gyflwyno Cymraeg fel pwnc gorfodol wedi cael effaith negyddol ar nifer y disgyblion sy'n astudio ITM”.



Pennod 5

Casgliadau



Effaith Dyfodol Byd-eang

Mae'r consortia rhanbarthol yn parhau i lwyddo i ymgysylltu â chyfran fawr o ysgolion yn eu hardaloedd, a chaiff eu gwaith ei werthfawrogi'n fawr. Mae'n amlwg eu bod yn cyrraedd y mwyafrif helaeth o adrannau ITM yng Nghymru ac mae'r lefelau uchel sy'n cymryd rhan mewn DPP yn deyrnged i'w hymdrechion. Mae llawer o ysgolion bellach yn cymryd rhan mewn gweithgareddau niferus i godi proffil a statws ITM ac yn ddiau, mae rhai wedi llwyddo i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio ar gyfer cymwysterau TGAU.

Mae'r consortia rhanbarthol yn parhau i lwyddo i ymgysylltu â chyfran fawr o ysgolion yn eu hardaloedd, a chaiff eu gwaith ei werthfawrogi'n fawr.

Gostyngiadau parhaus ar lefel TGAU a Safon Uwch

Fodd bynnag, mae'r darlun cenedlaethol ar gyfer ITM yng Nghymru gyfan dal i waethygu. Mae cyflwyno Bagloriaeth Cymru a'r gostyngiad dilynol mewn slotiau ar gyfer dewisiadau opsiynau rhydd, a manylebau arholiad newydd sydd, yn ôl athrawon, yn anos i ddisgyblion, wedi gorbwyso'r ymdrechion niferus i annog disgyblion i astudio iaith fodern.

Mae effaith llymder ariannol, yn enwedig ym maes addysg ôl-16 ac, mewn rhai ysgolion, cynnydd o ran agweddau negyddol tuag at ddysgu iaith yn dilyn pleidlais Brexit, yn ffactorau ychwanegol sy'n dylanwadu ar y gostyngiad parhaus. Mewn cyd-destun lle y caiff ysgolion eu trin mewn ffordd gynyddol annibynnol, mae gan uwch arweinwyr ysgolion y pŵer i oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn, drwy amserlennu, neilltuo amser, dylunio colofnau opsiynau - hyd yn oed, o bosibl, gwneud y pwnc yn orfodol i rai disgyblion - a thrwy sefydlu ethos rhyngwladol sy'n ystyriol i ieithoedd yn yr ysgol. Fodd bynnag, dim ond 17% o'r ymatebwyr i'r arolwg hwn a ddywedodd fod tîm rheoli eu hysgol yn cyfleu negeseuon cadarnhaol am ITM ar hyn o bryd.

Potensial y cwricwlwm newydd

Mae gan y cwricwlwm newydd gryn botensial i adfywio ac ailbennu'r cysyniad o addysg ieithoedd yng Nghymru, a cheir arwyddion bod rhai ysgolion eisoes yn dechrau creu strwythurau a fydd yn helpu i integreiddio Cymraeg, Saesneg ac 'ieithoedd rhyngwladol'. Mewn rhai ysgolion, ceir cydweithredu agos yn barod a dealltwriaeth o ran yr enghreifftiau o orgyffwrdd a'r synergeddau (e.e. addysgu a defnyddio terminoleg gramadeg mewn ffordd gyson). Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymdeimlad o fyrder na symudiad tuag at weledigaeth gadarnhaol o'r hyn y gallai'r cwricwlwm newydd ei gynnig, ond yn hytrach, ceir ymdeimlad y caiff athrawon ITM eu hystyried fel y 'perthnasau tlawd' o hyd. Er yr ystyrir mai amser yw'r rhwystr allweddol sy'n atal rhagor o gydweithredu, bydd angen arweinyddiaeth effeithiol hefyd, er mwyn sicrhau y caiff unrhyw amser sydd ar gael ei dreulio mewn ffordd fuddiol. Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o fod â nifer isel o ddisgyblion yn astudio ITM a dylid ymchwilio ymhellach ac yn fanylach i hyn.

Mae gan y cwricwlwm newydd gryn botensial i adfywio ac ailbennu'r cysyniad o addysg ieithoedd yng Nghymru, a cheir arwyddion bod rhai ysgolion eisoes yn dechrau creu strwythurau a fydd yn helpu i integreiddio Cymraeg, Saesneg ac 'ieithoedd rhyngwladol'.

Cyflwyno ieithoedd newydd mewn ysgolion cynradd

Efallai y gellid disgwyl mai ymdrechion y consortia rhanbarthol ym maes ieithoedd cynradd a gafodd y gefnogaeth leiaf ac a werthfawrogwyd leiaf gan ysgolion uwchradd. Mae athrawon ITM mewn ysgolion uwchradd yn gweithio o dan bwysau eithriadol, yn aml mewn adrannau bach iawn, ac nid oes ganddynt yr adnoddau na'r gallu i ystyried ysgolion cynradd. Efallai y gellid disgwyl hefyd iddynt deimlo mai ymyriadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar ITM (yn hytrach na sgiliau iaith cyffredinol yn Gymraeg neu Saesneg) yw'r ffordd orau o baratoi disgyblion i ddysgu iaith mewn ysgol uwchradd. Fodd bynnag, gyda dim ond 14% o ysgolion uwchradd yn dweud bod ganddynt gysylltiadau da a rheolaidd â'u prif ysgol fwydo gynradd mewn perthynas ag ITM, a mwy na thraean o ysgolion cynradd yn methu â chynnig unrhyw amlygiad i ITM o gwbl, mae'r holl ganfyddiadau yn dangos yn glir faint o waith datblygu y bydd ei angen - a'r goblygiadau anochel o ran amser ac adnoddau - er mwyn cyflwyno datblygiadau arloesol effeithiol yn y cyfnod cynradd.

Natur frys y sefyllfa

Er gwaethaf y mesurau sy'n mynd rhagddynt, mae mwy o ysgolion yn nodi gostyngiadau na chynnydd o hyd ac mae dirywiad parhaus ITM ar lefel TGAU ac ôl-16 i'w weld o un flwyddyn i'r nesaf. Mae canlyniadau anfwriadol diwygiadau addysgol eraill, a chyfuniad o ffactorau yn y cyd-destun allanol, wedi creu argyfwng sy'n bygwth dileu rhai ieithoedd, neu ieithoedd mewn rhai cyfnodau, o fewn cyfnod byr iawn o amser. Bydd y cwricwlwm newydd a mesurau i annog trefniadau cynharach i ddysgu iaith newydd yn cymryd degawd neu fwy i ddwyn ffrwyth. Os cânt eu rhoi ar waith yn effeithiol, gallai mesurau o'r fath yn wir wella'r sefyllfa ar gyfer ITM mewn ysgolion uwchradd, ond casgliad cyffredinol yr adroddiad hwn yw bod angen ymyriadau mwy dybryd y tu hwnt i gwmpas cyfredol *Dyfodol Byd-eang* er mwyn atal cyfradd y dirywiad presennol.

Bydd y cwricwlwm newydd a mesurau i annog trefniadau cynharach i ddysgu iaith newydd yn cymryd degawd neu fwy i ddwyn ffrwyth.

Atodiad - Proffil ymatebion

Ysgolion Uwchradd Gwladol (CYMRU)

CYFRADD YMATEB

	Sail	Ymateb	Cyfradd Ymateb
Ysgolion uwchradd yng Nghymru	208	135	64.9%

PROFFIL YMATEB

Ystod oedran	Data crai sylfaenol	Sylfaen %	Ymateb crai	Ymateb %
Ysgolion Canol (3 - 16 oed)	5	2.4%	5	3.7%
Ysgolion Canol (3 - 19 oed)	6	2.9%	3	2.2%
Ysgolion Canol (4 - 19 oed)	1	0.5%	0	0.0%
Uwchradd (11 - 16 oed)	56	26.9%	32	23.7%
Uwchradd (11 - 19 oed)	140	67.3%	95	70.4%

Consortia addysg	Data crai sylfaenol	Sylfaen %	Ymateb crai	Ymateb %
Gogledd Cymru	54	26.0%	32	23.7%
De-orllewin a Chanolbarth Cymru	62	29.8%	35	25.9%
Canol De Cymru	56	26.9%	43	31.9%
De-ddwyrain Cymru	36	17.3%	25	18.5%

Math o ysgol	Data crai sylfaenol	Sylfaen %	Ymateb crai	Ymateb %
Ysgol Gymunedol	178	85.6%	116	85.9%
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr	19	9.1%	13	9.6%
Ysgol Wirfoddol a Reolir	2	1.0%	0	0.0%
Ysgol Sefydledig	9	4.3%	6	4.4%

Ystod oedran	Data crai sylfaenol	Sylfaen %	Ymateb crai	Ymateb %
Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math A)	18	8.7%	11	8.1%
Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math B)	12	5.8%	6	4.4%
Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math C)	4	1.9%	3	2.2%
Cyfrwng Saesneg - Cyfrwng Saesneg	145	69.7%	87	64.4%
Cyfrwng Saesneg - Saesneg gyda llawer o Gymraeg	8	3.8%	8	5.9%

Iaith	Data crai sylfaenol	Sylfaen %	Ymateb crai	Ymateb %
Uchel	41	19.7%	23	17.0%
Canol-Uchel	42	20.2%	32	23.7%
Canol	41	19.7%	25	18.5%
Canol-Isel	41	19.7%	24	17.8%
Isel	42	20.2%	31	23.0%
Dim data	1	0.5%	0	0.0%



British Council Cymru 1 Kingsway, Caerdydd CF10 3AQ

Ffôn 029 2092 4352/42 E-bost general.enquiries@britishcouncil.org Gwefan <https://wales.britishcouncil.org/en>

Twitter @BCouncil_Wales Facebook www.facebook.com/BritishCouncilWales

©British Council 2018

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig sydd yn hyrwyddo cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysg.